

Tlodi Tanwydd yng Nghymru

Ebrill 2020



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Tlodi Tanwydd yng Nghymru

Ebrill 2020



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Agymhellion.....	6
Cyflwyniad	10
Cylch gorchwyl.....	10
Ein dull gweithredu.....	10
1. Methiant Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau tlodi tanwydd statudol	12
Y diffiniad o dlodi tanwydd	13
Casglu data a monitro cynnydd yn erbyn y targedau.....	14
Y Rhaglen Cartrefi Clyd	14
Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.....	16
Ein barn ni	18
2. Y strategaeth tlodi tanwydd newydd.....	19
Ffocws y strategaeth.....	19
Sicrhau cysondeb â pholisïau datgarboneiddio	19
Targedau.....	20
Diffiniad o dlodi tanwydd	21
Casglu data a monitro cynnydd yn erbyn y targedau	21
Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.....	22
Ein barn ni	23
3. Dyfodol y Rhaglen Cartrefi Clyd.....	26
Asesu effaith y Rhaglen Cartrefi Clyd	26
Maint y Rhaglen.....	27
Cynllun yn seiliedig ar ardaloedd (“Arbed” ar hyn o bryd).....	27
Cynllun yn seiliedig ar anghenion (“Nyth” ar hyn o bryd).....	29
Gwaith galluogi	30
Cyrraedd cartrefi sy’n agored i niwed	30
Rhwymedigaeth Cwmni Ynni.....	31

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.....	32
Ein barn ni	34
4. Helpu pobl i dalu llai am ynni.....	39
Mesuryddion rhagdalau a mesuryddion deallus.....	39
Newid cyflenwyr ynni neu dariffau.....	39
Cynyddu incwm i'r eithaf	40
Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.....	41
Ein barn ni	41
5. Cefnogi ardaloedd gwledig	44
Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.....	45
Ein barn ni	46
6. Ansawdd adeiladau yng Nghymru	48
Adeiladu ar Safon Ansawdd Tai Cymru.....	48
Y defnydd o'r Sector Rhentu Preifat.....	49
Cartrefi newydd yng Nghymru.....	50
Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.....	51
Ein barn ni	52
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	54
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	56

Rhagair y Cadeirydd

Mae tlodi tanwydd yn parhau i fod yn her sylweddol yng Nghymru. Er gwaethaf uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018, amcangyfrifir bod 155,000 o aelwydydd, hynny yw 12 y cant o holl aelwydydd Cymru, yn dal i fod yn dlawd o ran tanwydd. Mae hyn yn 155,000 o aelwydydd yn ormod.

Ond beth mae tlodi tanwydd yn ei olygu? Yn ôl diffiniad swyddogol Llywodraeth Cymru, “gorfod gwario mwy na 10 y cant o incwm ar danwydd i’r cartref cyfan er mwyn cynnal system wresogi foddhaol”. Ond y tu ôl i’r diffiniad hwnnw mae realiti llwm - mae’n golygu byw mewn cartref oer a llaith. Dewis bwydo’ch teulu neu gadw’r teulu’n gynnes. Gall olygu iechyd corfforol a meddyliol gwaeth.

Mae cost yn gysylltiedig â thlodi tanwydd: i gyrhaeddiad addysgol, i’r economi, ac i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda thua 10% o farwolaethau ychwanegol yn y gaeaf yn cael eu priodoli’n uniongyrchol i dlodi tanwydd, gall y gost bersonol fod yn ergyd drom.

Yn sgil y ffaith bod strategaeth tlodi tanwydd newydd ar gyfer Cymru yn cael ei datblygu, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo o’r newydd i ddileu tlodi tanwydd ac ailystyried ei dull gweithredu.

Mae ein hadroddiad yn nodi gwersi y mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru eu dysgu o’i strategaeth flaenorol. Mae hefyd yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer strategaeth newydd gynhwysfawr sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys datgarboneiddio stoc dai Cymru.

Rydym yn gobeithio gweld ein hargymhellion yn cael eu hadlewyrchu mewn strategaeth tlodi tanwydd newydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Mae 155,000 o aelwydydd yn dibynnu arni.

Agymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i strategaeth tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r tri ffactor sy'n arwain at dlodi tanwydd - prisiau ynni, incwm cartrefi ac effeithlonrwydd ynni - a hynny mewn ffordd gynhwysfawr.

..... Tudalen 24

Argymhelliad 2. Rhaid i dargedau tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru fod yn heriol ond yn realistig. I gyd-fynd â'r targedau cyffredinol, rhaid cael targedau dros dro a cherrig milltir clir y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.

Wrth osod ei thargedau newydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- mabwysiadu dull tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban;
- y ffordd orau o sicrhau bod y targedau'n cyfateb â'r uchelgais ehangach i ddatgarboneiddio stoc dai Cymru erbyn 2050.Tudalen 25

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno targedau tlodi tanwydd statudol newydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei hystyriaethau cyn cyhoeddi ei strategaeth tlodi tanwydd derfynol. Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu peidio â chynnwys targedau statudol, rhaid iddi nodi ei rhesymau.Tudalen 25

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu fframwaith monitro cadarn i oruchwylio'r cynnydd o ran cyflawni ei strategaeth tlodi tanwydd newydd. Dylai hyn gynnwys:

- cyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd blynyddol (sy'n cyd-fynd â'r diffiniad newydd o dlodi tanwydd), gan gynnwys amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd anabl sy'n byw mewn tlodi tanwydd;
- Bwrdd Cyngori ar Dlodi Tanwydd, neu strwythur ffurfiol tebyg, sy'n cydnabod rôl allweddol rhanddeiliaid wrth fonitro ac adolygu cynnydd, ac wrth ddarparu gwaith craffu allanol;
- ymrwymiad i Lywodraeth Cymru adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd tuag at ei thargedau tlodi tanwydd newydd.Tudalen 25

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu diffiniad mwy priodol o dlodi tanwydd: un sy'n adlewyrchu profiad byw cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn fwy cywir. Fel man cychwyn, dylai ystyried y dull 'incwm gweddilliol', gan ddysgu gwersi o Loegr a'r Alban. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a'i gwblhau o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn..... Tudalen 25

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod amcangyfrifon tlodi tanwydd yn adlewyrchu'r diffiniad newydd. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio'r amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer 2020..... Tudalen 25

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Nyth ac Arbed am Byth i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn, sy'n cynnwys mesur effaith y cynlluniau ar dlodi tanwydd..... Tudalen 37

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag Arbed am Byth, a'i phartneriaid, i roi dulliau mwy soffistigedig ar waith ar gyfer targedu cymorth o dan y cynllun tuag at yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd..... Tudalen 37

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar:

- nifer yr eiddo a gafodd eu gwella a chyfanswm y gwariant drwy Arbed 3 ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen tair blynedd;
- y camau y mae'n bwriadu eu cymryd pe bai ffigurau ar welliannau a gwariant yn awgrymu bod Arbed 3 yn parhau i danberfformio.
.....Tudalen 37

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer pecynnau gwella effeithlonrwydd ynni am ddim o dan Nyth, gan ystyried y diffiniad newydd o dlodi tanwydd. Rhaid i'r adolygiad ystyried, yn benodol, ehangu'r meini prawf cymhwysedd i gynnwys aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddiodef tlodi tanwydd.
..... Tudalen 37

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd i dalu cost gwaith galluogi i aelwydydd na fyddent fel arall yn gallu elwa o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref o dan gynlluniau'r llywodraeth..... Tudalen 37

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru fyfrio ar y dystiolaeth a gafwyd am yr angen i neilltuo digon o amser i gwblhau gwaith galluogi cyn gwella effeithlonrwydd ynni o dan gynlluniau..... Tudalen 37

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth cyngor a chymorth mewnlol ar gyfer cartrefi sy'n agored i niwed sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddiodeff tlodi tanwydd. Dylai'r gwasanaeth:

- weithredu ar sail dull cyfannol, gan ddarparu cyngor a chymorth ar wella effeithlonrwydd ynni, cynyddu incwm i'r eithaf a lleihau costau ynni;
- darparu cymorth uniongyrchol i aelwydydd, er enghraifft, i fanteisio ar hawliau ariannol, gwirio tariffau ynni a newid cyflenwyr ynni.

.....Tudalen 38

Argymhelliad 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu dull cymorth addas i alluogi awdurdodau lleol i sicrhau'r cyllid mwyaf posibl ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni drwy ECO Flex.....Tudalen 38

Argymhelliad 15. Dylai'r strategaeth tlodi tanwydd newydd anelu at gynyddu'r defnydd o fesuryddion deallus mewn cartrefi ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio mesuryddion rhagdal, a'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o'i ddiodeff.....Tudalen 43

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddarparu manylion y grŵp gorchwyl a gorffen ar hyrwyddo'r nifer sy'n derbyn Credyd Pensiwn, gan gynnwys ei gylch gorchwyl a'r amserlen ar gyfer ei waith,
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen, ac ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd a'r amserlenni dan sylw.Tudalen 43

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrhau cynrychiolydd o Gymru ar Fwrdd Ofgem a chryfhau presenoldeb y rheolydd yng Nghymru.Tudalen 43

Argymhelliad 18. Dylai'r strategaeth tlodi tanwydd newydd gynnwys darpariaethau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebwr mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn gynnwys rhaglen bwrpasol gyda lefelau priodol o gyllid sy'n ystyried y mesurau mwy cymhleth a chostus sy'n ofynnol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig.....Tudalen 46

Argymhelliad 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i ddatblygu mecanwaith cymorth ariannol i alluogi landlordiaid preifat i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo. Rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth, o ystyried cyflwyno'r Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni newydd o fis Ebrill 2020..... Tudalen 53

Argymhelliad 20. Rhaid i Lywodraeth Cymru, ar y cyd ag awdurdodau lleol a Rhentu Doeth Cymru, wneud gwaith i nodi'r rhwystrau i orfodi'r Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni a mynd i'r afael â hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y gwaith hwn ar y cyfle cyntaf..... Tudalen 53

Argymhelliad 21. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod safonau effeithlonrwydd ynni newydd mewn cartrefi newydd mor uchelgeisiol â phosibl, a bwrw ymlaen â'r newidiadau i Reoliadau Adeiladu Rhan L heb ragor o oedi.
..... Tudalen 53

Cyflwyniad

1. Methodd Llywodraeth Cymru â chyrraedd ei tharged statudol i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018. Cyn bo hir, bydd yn ymgynghori ar strategaeth tlodi tanwydd newydd, a disgwylir i'r strategaeth derfynol gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yng ngwanwyn 2020. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru i archwilio'r materion dan sylw ac i ddylanwadu ar strategaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Cylch gorchwyl

2. Fe wnaethom wahodd sylwadau ar:

- raddfa ac effeithiau tlodi tanwydd yng Nghymru;
- pam na lwyddodd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei tharged statudol i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018;
- sut mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru hyd yma wedi helpu i leihau tlodi tanwydd, yn arbennig, effaith y Rhaglen Cartrefi Clyd (sy'n cynnwys Arbed a Nyth) a Safon Ansawdd Tai Cymru;
- sut y dylai strategaeth olynol Llywodraeth Cymru i'r strategaeth tlodi tanwydd (a fydd yn destun ymgynghoriad yn yr hydref 2019) fod yn wahanol i'w strategaeth yn 2010;
- pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod cartrefi newydd, yn ogystal â chartrefi presennol, yn effeithlon iawn o ran ynni i'w hatal rhag achosi tlodi tanwydd yn y dyfodol.

Ein dull gweithredu

3. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2019, a chawsom 35 o ymatebion. Gellir gweld manylion y rhain ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

4. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 8, 22 a 30 Ionawr 2020 i gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid. Ar 13 Chwefror 2020, cymerwyd tystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Gellir gweld manylion y rhain hefyd ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

5. Ymwelodd aelodau'r Pwyllgor â datblygiad Clos y Wawr, Castell-nedd (dan ofal Grŵp Pobl) a Thŷ Silures, Caerau, Caerdydd (dan ofal Cymdeithas Tai Unedig Cymru).
6. Cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Cynulliad gyfres o grwpiau ffocws gyda phobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddirodded tlodi tanwydd a darparwyr gwasanaethau cyngor a chymorth. Mae'r **allbwn o'r grwpiau** wedi helpu i lywio ein hadroddiad.
7. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith.

1. Methiant Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau tlodi tanwydd statudol

8. Yn 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru*, a oedd yn cynnwys targedau statudol¹ i ddileu tlodi tanwydd. Y targedau oedd, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, dileu tlodi tanwydd yng Nghymru:

- ymhlith cartrefi sy'n agored i niwed erbyn 2010;
- mewn tai cymdeithasol erbyn 2012; ac
- ym mhob cartref erbyn 2018.

9. Cafodd *Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru* ei ddisodli gan ***Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010*** ('Strategaeth 2010') a chadwyd yr un targedau.

10. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, er bod cynnydd wedi'i wneud, methodd Llywodraeth Cymru â chyrraedd unrhyw un o'i thargedau statudol i ddileu tlodi tanwydd. Yn ôl ***amcangyfrifon tlodi tanwydd*** diweddaraf Llywodraeth Cymru (ar gyfer 2018):

- mae 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd (sy'n cyfateb i 12% o'r holl gartrefi);
- mae 130,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed² yn byw mewn tlodi tanwydd (sy'n cyfateb i 11% o aelwydydd sy'n agored i niwed);
- mae 21,000 o aelwydydd yn y sector tai cymdeithasol yn byw mewn tlodi tanwydd (sy'n cyfateb i 9% o'r holl aelwydydd yn y sector hwn).

11. Cydnabu'r ymatebwyr, er y gwnaed cynnydd yn erbyn y targedau, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd unrhyw un o'i thargedau statudol. Nodwyd

¹ Gosodwyd y targedau tlodi tanwydd presennol o dan y gofyniad a geir yn Neddff Cartrefi Cynnes ac Arned Ynni 2000 ('Deddf 2000'). O dan Ddeddf 2000, roedd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth tlodi tanwydd yn nodi sut y byddent, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, yn dileu tlodi tanwydd. Roedd yn rhaid i'r strategaeth gynnwys dyddiad targed ar gyfer dileu tlodi tanwydd, na allai fod yn hwy na 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd y strategaeth gyntaf.

² Diffinnir aelwydydd sy'n agored i niwed fel y rhai sydd â pherson 60 oed neu'n hŷn, plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed a/neu berson sy'n anabl neu sydd â chyflwr cyfyngus hirdymor.

amrywiol resymau am hyn, gan gynnwys effaith diwygio lles a'r cynnydd ym mhrisiau ynni, nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth uniongyrchol drostynt. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys diffiniad anaddas o dlodi tanwydd, cyfyngiadau'r cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref presennol, a diffyg fframwaith monitro cadarn. Trafodir y rhain yn fanylach mewn penodau diweddarach.

12. Roedd consensws cyffredinol bod y targedau wedi bod yn rhy uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried rheolaeth a dylanwad cyfyngedig Llywodraeth Cymru dros brisiau ynni ac incwm cartrefi. Yn ei adroddiad, Tlodi Tanwydd (Hydref 2019), nododd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC):

“Dim ond yn rhannol y mae pwerau i fynd i'r afael â'r prif achosion [tlodi tanwydd] wedi'u datganoli...O ystyried yr achosion sylfaenol cymhleth a'r rheolaeth gyfyngedig, er enghraifft ar brisiau ynni, rydym ni'n meddwl bod y targedau a bennodd Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu tlodi tanwydd yn uchelgeisiol tu hwnt.”³

Y diffiniad o dlodi tanwydd

13. Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio tlodi tanwydd fel aelwydydd sy'n “gorfod gwario mwy na 10 y cant o incwm (gan gynnwys budd-dal tai) ar danwydd i'r cartref cyfan er mwyn cynnal system wresogi foddhaol”. Yn flaenorol, roedd holl wledydd y DU yn defnyddio'r un diffiniad. Fodd bynnag, codwyd pryderon yn ystod y blynyddoedd diwethaf nad oedd y diffiniad yn addas at y diben. Comisiynodd Llywodraethau'r DU a'r Alban adolygiadau annibynnol o'r diffiniad, a ddiwygwyd wedi hynny yn Lloegr a'r Alban.

14. Cododd yr ymatebwyr bryder nad oedd diffiniad Llywodraeth Cymru wedi arwain at ganolbwynti'n ddigonol ar aelwydydd sydd â'r angen mwyaf. Er enghraifft, dywedodd Sefydliad Bevan ei bod yn bosibl bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei hadnoddau i gynorthwyo aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi drud i'w cynhesu yn hytrach na chynorthwyo'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Tynnodd sylw at y ffaith, er bod tlodi tanwydd wedi haneru yn ystod y degawd diwethaf, bod y gostyngiad mwyaf mewn tlodi tanwydd i'w weld yn y degraddau incwm uchaf.⁴

³ www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FB17, Sefydliad Bevan

Casglu data a monitro cynnydd yn erbyn y targedau

- 15.** Un o'r camau allweddol yn Strategaeth 2010 oedd datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso ('y Cynllun') a oedd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gynnydd tuag at y targedau, gwerthuso'r Strategaeth, trefniadau adrodd, gan gynnwys adroddiad blynyddol, a nodi bylchau mewn data.
- 16.** Yn ogystal, bwriad Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd oedd chwarae rhan ganolog yn y gwaith o fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni Strategaeth 2010. Fodd bynnag, diddymwyd y Grŵp Cyngori yn 2011. Roedd ei waith i fod i gael ei gynnwys yng ngwaith y Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi. Diddymwyd y Grŵp hwnnw hefyd yn 2016.
- 17.** Cododd sawl ymatebydd bryder ynghylch diffyg fframwaith monitro i oruchwylio'r cynnydd wrth gyflawni Strategaeth 2010 a'r targedau. Testun pryder penodol oedd argaeledd data ar dlodi tanwydd, a diffyg dull ffurfiol i helpu i fonitro cynnydd a darparu proses graffu allanol.
- 18.** Honnodd Sefydliad Bevan nad oedd data yn cael eu casglu'n ddigon rheolaidd, a chyfeiriodd at fylchau yn yr amcangyfrifon tlodi tanwydd rhwng 2012 a 2016, a 2016 i 2018. Roedd hyn yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru ddata cyfyngedig iawn ar ba mor llwyddiannus neu beidio oedd ei pholisïau o ran dod â thlodi tanwydd i ben.⁵ Mynegwyd barn debyg gan Gweithredu Ynni Cenedlaethol (NEA) Cymru a awgrymodd, heb ddata cadarn, fod y fersiwn nesaf o'r strategaeth yn cael ei llunio'n ddall i ryw raddau.⁶

Y Rhaglen Cartrefi Clyd

- 19.** Ar 31 Mawrth 2019, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwario £251.8 miliwn, gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol yr UE, ar y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r Rhaglen yn cynnwys cynlluniau Nyth⁷ ac Arbed⁸, sy'n ariannu gwelliannau effeithlonrwydd

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig FB17, Sefydliad Bevan

⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 195, 8 Ionawr 2020

⁷ Mae Nyth yn cynnig ystod o gyngor diduedd am ddim ac, yn amodol ar gymhwysedd, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim fel boeler newydd, system gwres canolog neu inswleiddio.

⁸ Cynllun ar gyfer ardaloedd penodol yw Arbed. Dim ond deiliaid tai sy'n byw mewn ardal gymwys sy'n gallu cael cymorth o dan y cynllun. Darperir cyllid drwy'r cynllun i osod mesurau effeithlonrwydd ynni, megis cladin ar waliau allanol a systemau gwres canolog newydd

ygni cartref ac yn darparu cyngor i aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn tai yn y sector preifat.

20. Roedd gan yr ymatebwyr farn gymysg am effaith y Rhaglen Cartrefi Clyd ar dlodi tanwydd. At ei gilydd, roeddent yn awgrymu bod y cynlluniau wedi arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ygni ac y dylai hyn wneud cartrefi yn llai tebygol o orfod byw mewn tlodi tanwydd. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau yn ddigon eang i fod ag unrhyw obaith o gyrraedd y targed statudol. Nododd Sefydliad Bevan:

“...to eradicate fuel poverty in a decade, the Welsh Government needed to assist approximately 33,000 households a year out of fuel poverty. Between 2010 and 2019 a total of 55,056 households – i.e. equivalent to 6,000 households a year – received home energy efficiency improvements through NEST and ARBED...This was just 20 percent of the number needed.”⁹

21. Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), er bod Nyth ac Arbed wedi cael eu gwerthuso, “mae'n anodd bod yn sicr ynghylch union effaith” y cynlluniau. Nododd:

“Heb os nac oni bai, mae'r ddau [Nyth ac Arbed] wedi arwain at welliannau i effeithlonrwydd ygni'r tai.. Mewn theori, dylai'r gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ygni yr adroddwyd arnynt wneud yr aelwydydd hynny'n llai tebygol o fod mewn tlodi tanwydd. Fodd bynnag, nid yw'r naill gynllun na'r llall yn gwirio'n rheolaidd a oedd pobl mewn tlodi tanwydd cyn ynteu ar ôl yr ymyriad.”¹⁰

22. Roedd NEA Cymru yn hyderus bod y cynlluniau wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn tlodi tanwydd, ond nododd:

“...it is currently unclear what impact these schemes have had in terms of lifting households out of fuel poverty. We simply do not know because no assessment has been done...”¹¹

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig FB17, Sefydliad Bevan

¹⁰ www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP27, NEA Cymru

23. Gwnaed pwyntiau tebyg gan Sefydliad Bevan, y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl a Cyngor ar Bopeth.¹²

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

24. Wrth amlinellu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar ddileu tlodi tanwydd, nododd y Gweinidog “yng Nghymru nid ydym yn gyfrifol am yr holl bethau sy’n dylanwadu ar dlodi tanwydd”. Dywedodd:

“er ein bod wedi cymryd camau fel Llywodraeth i gynyddu incwm pobl, mae polisi Llywodraeth y DU o gyni wedi lleihau incwm cartrefi. Yn yr un modd, caiff marchnad ynni y DU ei rheoleiddio gan Ofgem, a chaiff y polisiâu eu penderfynu gan Lywodraeth y DU.”¹³

25. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny y gallai ddylawnadu arnynt fwyaf: gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy ddarparu cyngor a thrwy osod offer i ddefnyddio ynni’n fwy effeithlon, a helpu pobl i wneud penderfyniadau mwy doeth ar ynni er mwyn gostwng eu biliau.¹⁴

26. Dywedodd y Gweinidog fod “amrywiol resymau” pam mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd ei thargedau statudol. Cydnabu:

“...perhaps the target was a bit ambitious. I think targets should be ambitious, but they also have to be realistic, and maybe it was a little bit too optimistic.”¹⁵

27. Wrth wneud sylwadau ar effaith y Rhaglen Cartrefi Clyd, dywedodd y Gweinidog:

“Rhwyng 2011 a Mawrth 2019, mae dros 37,700 o gartrefi wedi elwa o fesurau defnyddio ynni yn effeithlon ar yr aelwyd drwy Gynllun Nest. O’r cartrefi hyn, roedd 43% ohonynt yn cael eu graddio yn Radd G y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) cyn i’r mesurau gael eu gosod, 51% gyda EPC F a 6% gyda EPC E. Wedi gosod mesurau arbed ynni yn y cartref, roedd 27% o gartrefi wedi gwella i gyfradd EPC C, 53% wedi gwella i radd EPC D ac 16% wedi gwella i radd EPC E. Roedd y 4% sy’n

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig FP17, FP03 a FP29

¹³ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

¹⁴ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 13 Chwefror 2020

weddill, sef rhai o'r adeiladau anoddaf i'w trin, wedi cyrraedd gradd foddhaol o F neu G.”¹⁶

28. Fodd bynnag, cydnabu “mae angen fframwaith fonitro a gwerthuso fwy soffistigedig i sicrhau bod ein rhaglenni yn cynnig manteision gwirioneddol i bobl sy'n cael anhawster i dalu am yr ynni sydd ei angen i gynnal trefn wresogi foddhaol”.¹⁷

29. Dywedodd y Gweinidog fod adolygiad SAC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, wedi bod yn amhrisiadwy gan fod y Llywodraeth wedi asesu'r perfformiad yn erbyn y targedau a'r camau a nodwyd yn strategaeth 2010.¹⁸ Ychwanegodd fod Strategaeth 2010 wedi cael ei monitro a'i hadolygu'n barhaus gan swyddogion.¹⁹ Esboniodd y Gweinidog fod Nyth wedi'i adolygu sawl gwaith a bod newidiadau wedi'u rhoi ar waith yn sgil hynny.

30. Cydnabu'r Gweinidog mai boeleri newydd oedd mwyafrif helaeth y mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd o dan Nyth. Dywedodd fod y rhain yn ffordd effeithiol iawn o leihau biliau ynni yn ogystal ag allyriadau carbon. Esboniodd fod mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi yn cael eu hargymell ar sail asesiad annibynnol o'r tŷ cyfan.²⁰

31. Honnodd y Gweinidog, er nad oes rhaid i aelwydydd fod yn byw mewn tlodi tanwydd i fod yn gymwys i gael gwelliannau effeithlonrwydd ynni o dan gynlluniau Nyth neu Arbed, eu bod yn sicr mewn perygl o ddiodef tlodi tanwydd.²¹ Nododd:

“We've done some detailed analysis of our fuel poverty estimates, and it suggests that approximately 144,000 homes in Wales spend between 8 per cent and 10 per cent of their household income on domestic fuel. So, therefore, they are at risk of falling into fuel poverty.”²²

¹⁶ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

¹⁷ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 13 Chwefror 2020

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 13 Chwefror 2020

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 13 Chwefror 2020

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 188, 13 Chwefror 2020

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 189, 13 Chwefror 2020

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor hwn yn dal i fod yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd ei thargedau statudol ar gyfer dileu tlodi tanwydd. Pwrpas y bennod hon yw ystyried y rhesymau dros y methiant hwnnw, gyda'r bwriad o lywio datblygiad y strategaeth tlodi tanwydd nesaf.

Roedd targedau statudol Llywodraeth Cymru yn glodwiw o ran eu bwriad, ond, mewn gwirionedd, roeddent yn afrealistig. Er y gwnaed cynnydd, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, methwyd â cyrraedd y tri tharged o gryn dipyn. Gydag amcangyfrif o 12 y cant o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd, mae maint y broblem yn parhau i fod yn annerbyniol.

Roedd Strategaeth 2010 yn cynnwys cynigion i fonitro a gwerthuso cynnydd tuag at gyflawni'r targedau statudol. Prin yw'r dystiolaeth bod y cynigion hyn wedi'u cyflwyno mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Ni ddigwyddodd camau gweithredu allweddol, gan gynnwys adroddiadau cynnydd blynyddol.

Diddymwyd y Grŵp Cyngori, y bwriadwyd iddo fod â rôl ganolog o ran monitro a gwerthuso cynnydd a darparu swyddogaeth graffu allanol, pan oedd Strategaeth 2010 yn dal yn ei dyddiau cynnar. Gadawodd hyn fwllch sydd eto i'w lenwi. Nid oes dull ffurfiol ar waith o hyd i randdeiliaid ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar yr agenda tlodi tanwydd. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae gan Loegr Bwyllgor y DU ar Dlodi Tanwydd ac yn ddiweddar mae'r Alban wedi sefydlu Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd a Fforwm Partneriaeth.

Mewn penodau dilynol, mae'r Pwyllgor yn ystyried gwersi penodol y gellir eu dysgu o strategaeth tlodi tanwydd 2010.

Casgliad 1. Er mwyn llywio datblygiad ei strategaeth tlodi tanwydd newydd, dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi arfarniad trylwyr o strategaeth tlodi tanwydd 2010. Dylai hyn gynnwys y gwersi y mae wedi'u dysgu o fethiannau'r strategaeth. Disgwyliwn i'n barn a'r argymhellion a nodir yng ngweddill yr adroddiad hwn gael eu hadlewyrchu yn y strategaeth newydd.

2. Y strategaeth tlodi tanwydd newydd

Ffocws y strategaeth

32. Cododd sawl ymatebydd bryder nad oedd strategaeth tlodi tanwydd 2010 Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu agwedd gyfannol, a bod gormod o ffocws ar wella effeithlonrwydd ynni cartrefi.

33. Tynnodd Sefydliad Bevan sylw at y ffaith nad yw gwella effeithlonrwydd ynni ynddo'i hun yn dileu'r risg o dlodi tanwydd.²³ Mynegodd Cartrefi Cymunedol Cymru farn debyg. Galwodd ar y strategaeth newydd i gefnogi cyflwyno rhaglen gyfannol sy'n targedu'r tri ffactor sy'n arwain at dlodi tanwydd (prisiau ynni, incwm cartrefi ac effeithlonrwydd ynni) yn uniongyrchol ac yn yr un modd.²⁴

Sicrhau cysondeb â pholisïau datgarboneiddio

34. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais "i ddatgarboneiddio'r holl gartrefi yng Nghymru gan o leiaf 80% erbyn 2050, ni waeth beth fo'u deiliadaeth".²⁵ Cydnabuwyd yn eang bod yn rhaid i'r strategaeth tlodi tanwydd newydd gyd-fynd â'r uchelgais hon. Fodd bynnag, tynnodd sawl ymatebydd sylw at densiynau posibl rhwng uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio cartrefi ac i ddileu tlodi tanwydd.

35. Tynnodd SAC sylw at y ffaith, mewn termau ariannol yn unig, mai nwy naturiol yw'r math rhataf o ynni domestig. Yn hynny o beth, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu "her sylweddol o ran gwneud y cyflenwad ynni'n fwy carbon-effeithlon gan hefyd osgoi codiadau mewn prisiau sy'n gwthio mwy o bobl i mewn i dlodi tanwydd".²⁶

36. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol mewn egwyddor i argymhellion y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru ('y Grŵp Cynghori'). Yn ei adroddiad, *Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell: Datgarboneiddio cartrefi presennol yng Nghymru* (Gorffennaf 2019), gwnaeth y Grŵp Cynghori gyfres o argymhellion uchelgeisiol ynghylch ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig FB17, Sefydliad Bevan

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FP28, Cartrefi Cymunedol Cymru

²⁵ https://lyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel?_ga=2.181948519.1739194294.1584463959-768884129.1582223051

²⁶ www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd

cartrefi. Argymhellodd y Grŵp Cyngori y dylid cysoni cynlluniau a rhaglenni gwella cartrefi fel Nyth ac Arbed â'r canlyniadau a'r argymhellion yn ei adroddiad.

37. Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i'r Llywodraeth wneud cynnydd o ran bwrw ymlaen â'r argymhellion, gan gynnwys blaenoriaethu ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol a chartrefi eraill sy'n byw mewn tlodi tanwydd, gyda tharged o gyflawni sgôr Band A y Dystysgrif Perfformiad Ynni. Fodd bynnag, roedd sawl un yn cydnabod bod y nod hwn yn uchelgeisiol iawn; roedd rhai yn teimlo ei fod yn afrealistig. Cododd rhai o'r ymatebwyr bryder ynghylch lefel y buddsoddiad a'r arbenigedd technegol sy'n ofynnol i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, yn enwedig hen eiddo anodd eu trin, er mwyn cyrraedd Band A y Dystysgrif Perfformiad Ynni. Pwysleisiodd Cartrefi Cymunedol Cymru yr angen am waith ymchwil a modelu helaeth i nodi maint y costau a'r mesurau sy'n ofynnol.²⁷ Mynegwyd barn debyg gan Cyngor ar Bopeth.²⁸

Targedau

38. Cafwyd cefnogaeth eang i strategaeth tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru gynnwys targedau uchelgeisiol ond realistig, ynghyd â cherrig milltir y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.

39. Argymhellodd SAC y dylai Llywodraeth Cymru ystyried "[p]ennu uchelgais neu nod sy'n fwy cyson â chylch rheolaeth a dylanwad Llywodraeth Cymru".²⁹

40. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni y dylai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu dull tebyg i'r un a fabwysiadwyd yn yr Alban ar gyfer gosod targedau. Mae'r dull hwn yn ystyried y duedd i amrywiol aelwydydd symud i mewn ac allan o dlodi tanwydd oherwydd newid yn eu hamgylchiadau, amrywiadau anrhagweladwy ym mhrisiau ynni, a heriau technegol ôl-osod rhai mathau o eiddo. Awgrymodd darged yng Nghymru o sicrhau nad oes mwy na 2% o aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd erbyn 2030.³⁰

41. Cynigiodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni hefyd y dylid cyflwyno targed Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, gan dynnu sylw at y gydberthynas rhwng sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni isel a thlodi tanwydd.³¹ Mabwysiadwyd y dull hwn yn Lloegr. Mae Llywodraeth yr Alban

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig FP28, Cartrefi Cymunedol Cymru

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig FP29, Cyngor ar Bopeth

²⁹ www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

hefyd wedi ymgynghori ar darged Tystysgrif Perfformiad Ynni fel rhan o'i gwaith ehangach ar effeithlonrwydd ynni.

Diffiniad o dlodi tanwydd

42. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr ymatebwyr i ddiwygio'r diffiniad cyfredol i ddarparu darlun mwy cywir o dlodi tanwydd yng Nghymru ac i adlewyrchu'n well brofiadau byw y rhai sy'n dlawd o ran tanwydd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid y dull 'incwm gweddilliol', a ddefnyddir fel sail i'r diffiniadau yn Lloegr a'r Alban. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i dargedu cymorth ac adnoddau'n well.

Casglu data a monitro cynnydd yn erbyn y targedau

43. Awgrymodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol y byddai cael amcangyfrifon tlodi tanwydd yn ôl awdurdod lleol yn fuddiol. Ar hyn o bryd, dim ond ar lefel genedlaethol y mae amcangyfrifon ar gael.

44. Esboniodd Scope nad yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar gyfraddau tlodi tanwydd ymhlith pobl anabl. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd canfod a oedd tlodi tanwydd yn cael effaith anghymesur ar bobl anabl, neu a oeddent wedi elwa'n gyfartal o'r gostyngiad mewn tlodi tanwydd ymhlith 'grwpiau sy'n agored i niwed'.³²

45. Pwysleisiodd Adran Dai Cyngor Ynys Môn yr angen i "sicrhau llywodraethiant cadarn ac effeithiol ar gyfer monitro cynnydd y strategaeth". Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dull a fabwysiadwyd yn yr Alban, sy'n cynnwys Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd.³³

46. Noda dogfen UK Fuel Poverty Monitor 2019 yr NEA fod Cymru yn un o'r ychydig wledydd sydd heb Gorff Cyngori Gweinidogol ar Dlodi Tanwydd. Dadleua:

"It is evident that there is clearly a gap in the provision of advice and guidance to the Welsh Government to help direct, or redirect, current initiatives and programmes so they can be targeted at those most in need."

³² Tystiolaeth ysgrifenedig FP26, Scope

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig FP12, Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn

47. Galwodd NEA Cymru ar i Lywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Monitro Strategol i fonitro a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r strategaeth newydd yn ogystal ag adolygu ac adrodd ar gynnydd.³⁴ Mynegwyd barn debyg gan Cyngor ar Bopeth.³⁵

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

48. Pan ofynnwyd a oedd y Gweinidog yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â thlodi tanwydd, gan gynnwys targedau statudol newydd, nododd:

“Not at the moment, and the targets that we're going to be proposing in the new strategy...I think they'll have the same effect as any Act we could bring forward.”³⁶

49. Fodd bynnag, eglurodd, os yw canlyniad yr ymgynghoriad yn darparu tystiolaeth gymhellol, y byddai'n ystyried y mater ymhellach.³⁷

50. Eglurodd y Gweinidog y byddai'n ceisio barn ar yr angen i newid y diffiniad o dlodi tanwydd a'r ffordd o'i fesur fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig ar y strategaeth newydd.³⁸

51. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn y stoc dai er mwyn cyflawni Band A y Dystysgrif Perfformiad Ynni, ond yn lle hynny mae wedi ymrwymo i gyflawni'r safon orau bosibl ar gyfer pob math o dai.³⁹

52. Wrth ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, esboniodd y Gweinidog, yn unol ag argymhelliad y Grŵp Cynghori, fod modelu'r stoc tai cymdeithasol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i asesu a oedd modd cyrraedd targed Band A y Dystysgrif Perfformiad Ynni. Ychwanegodd y byddai hyn hefyd yn helpu i nodi, er enghraifft, y llwybrau datgarboneiddio cywir ar gyfer cartrefi, y camau sydd eu hangen a'r costau cysylltiedig. Byddai'r cam hwn o'r gwaith modelu wedi'i gwblhau erbyn gwanwyn 2020.⁴⁰

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FP27, NEA Cymru

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig FP29, Cyngor ar Bopeth

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 13 Chwefror 2020

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 13 Chwefror 2020

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 13 Chwefror 2020

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 13 Chwefror 2020

⁴⁰

53. Honnodd y Gweinidog y byddai canlyniadau'r gwaith hwn, ochr yn ochr â data o'r Rhaglen Tai Arloesol, yn llywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol ar y Rhaglen Cartrefi Clyd. Ychwanegodd y Gweinidog fod ei "hadran wedi gwneud rhywfaint o waith asesu lefel uchel, sydd wedi arwain at ffigur o tua £56 miliwn y flwyddyn mewn perthynas â hyn.⁴¹

Ein barn ni

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ei hymdrechion o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd ar wella effeithlonrwydd ynni. Er bod hyn yn creu manteision ar draws ystod o feysydd polisi, nid yw o reidrwydd yn dileu tlodi tanwydd mewn cartrefi. I'r cartrefi hyn, dim ond rhan o'r ateb yw gwella effeithlonrwydd ynni.

Er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd, rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy cyfannol a cheisio mynd i'r afael â phob un o'r tri ffactor sy'n creu tlodi tanwydd - prisiau ynni, incwm cartrefi ac effeithlonrwydd ynni. Disgwyliwn weld hyn yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth newydd.

Rhaid i'r strategaeth newydd gyd-fynd â blaenoriaethau eraill, megis datgarboneiddio stoc dai Cymru. Mae adroddiad y Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru wedi gosod y cywair ar gyfer y ddadl, ac mae angen ymateb beiddgar gan Lywodraeth Cymru. Os caiff ei reoli'n llwyddiannus, bydd datgarboneiddio'r stoc dai nid yn unig yn helpu Llywodraeth Cymru i wireddu ei huchelgais i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, ond i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru. Dylai'r fersiwn nesaf o gynllun cyflawni carbon isel Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir yn 2021, fod yn gyson â pholisïau datgarboneiddio a thlodi tanwydd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ddiwyro yn ei huchelgais i ddileu tlodi tanwydd. Dylai osod targedau heriol, ond realistig, sy'n cydnabod maint y rheolaeth a'r dylanwad sydd ganddi dros brif ysgogwyr tlodi tanwydd. Dylai'r targedau gael eu hategu gan dargedau interim a cherrig milltir y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.

Wrth osod targedau newydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu'r dull a fabwysiadwyd yn yr Alban. Mae hyn yn cydnabod y nifer fawr o

[rgymhellion%20yn%20Adroddiad%20Y%20Pwyllgor%20Newid%20Hinsawdd%20Amgylchedd%20a%20Mater.pdf](#)

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 13 Chwefror 2020

newidynnau sy'n effeithio ar dlodi tanwydd, rhai ohonynt y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

Mae Lloegr a'r Alban wedi ymgorffori eu targedau tlodi tanwydd newydd mewn deddfwriaeth. Ni fyddai targedau statudol ar gyfer Cymru ynddynt eu hunain yn gwarantu camau gweithredu na llwyddiant. Fodd bynnag, byddant yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi tanwydd, a sicrhau atebolrwydd cryfach. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi ei thargedau tlodi tanwydd newydd ar sylfaen statudol, yn unol â gwledydd eraill y DU.

Bydd diffiniad o dlodi tanwydd sy'n adlewyrchu profiad byw aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn allweddol i lwyddiant strategaeth tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru, ac i ddylunio a darparu polisiau a rhaglenni lleihau tlodi tanwydd effeithiol. Nid yw'r diffiniad presennol a ddefnyddir yng Nghymru yn gwneud hyn. Mae'n fras ac yn rhy syml.

Mae Lloegr a'r Alban eisoes wedi mabwysiadu diffiniadau mwy cadarn o dlodi tanwydd, yn seiliedig ar ddull 'incwm gweddilliol'. Mae strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi cyn bo hir, yn gyfle delfrydol i fabwysiadu diffiniad mwy priodol, ac i ail-lunio ei dull o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Yn olaf, rhaid i Lywodraeth Cymru wella argaeledd data ar dlodi tanwydd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn mesur pa mor llwyddiannus yw ei hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ac er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar bolisiau a rhaglenni'r dyfodol. Er bod amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u cyhoeddi, nid ydynt wedi'u cyhoeddi fel mater o drefn. Bydd amcangyfrifon mwy rheolaidd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro newidiadau mewn tlodi tanwydd dros amser a hyrwyddo tryloywder a gwaith craffu cyhoeddus.

Argymhelliad 1. Rhaid i strategaeth tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r tri ffactor sy'n arwain at dlodi tanwydd - prisiau ynni, incwm cartrefi ac effeithlonrwydd ynni - a hynny mewn ffordd gynhwysfawr.

Argymhelliad 2. Rhaid i dargedau tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru fod yn heriol ond yn realistig. I gyd-fynd â'r targedau cyffredinol, rhaid cael targedau dros dro a cherrig milltir clir y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.

Wrth osod ei thargedau newydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- mabwysiadu dull tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban;

- y ffordd orau o sicrhau bod y targedau'n cyfateb â'r uchelgais ehangach i ddatgarboneiddio stoc dai Cymru erbyn 2050.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno targedau tlodi tanwydd statudol newydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei hystyriaethau cyn cyhoeddi ei strategaeth tlodi tanwydd derfynol. Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu peidio â chynnwys targedau statudol, rhaid iddi nodi ei rhesymau.

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu fframwaith monitro cadarn i oruchwylio'r cynnydd o ran cyflawni ei strategaeth tlodi tanwydd newydd. Dylai hyn gynnwys:

- cyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd blynyddol (sy'n cyd-fynd â'r diffiniad newydd o dlodi tanwydd), gan gynnwys amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd anabl sy'n byw mewn tlodi tanwydd;
- Bwrdd Cynghori ar Dlodi Tanwydd, neu strwythur ffurfiol tebyg, sy'n cydnabod rôl allweddol rhanddeiliaid wrth fonitro ac adolygu cynnydd, ac wrth ddarparu gwaith craffu allanol;
- ymrwymiad i Lywodraeth Cymru adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd tuag at ei thargedau tlodi tanwydd newydd.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu diffiniad mwy priodol o dlodi tanwydd: un sy'n adlewyrchu profiad byw cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn fwy cywir. Fel man cychwyn, dylai ystyried y dull 'incwm gweddilliol', gan ddysgu gwersi o Loegr a'r Alban. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a'i gwblhau o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod amcangyfrifon tlodi tanwydd yn adlewyrchu'r diffiniad newydd. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio'r amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer 2020.

3. Dyfodol y Rhaglen Cartrefi Clyd

54. Mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn cynnwys dau gynllun gwahanol - cynllun yn seiliedig ar ardaloedd ('Arbed') a chynllun yn seiliedig ar anghenion ('Nyth'). Yn ogystal, defnyddiwyd arian o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, cynllun effeithlonrwydd ynni Llywodraeth y DU, i ychwanegu at gyllid Nyth a Arbed.

Asesu effaith y Rhaglen Cartrefi Clyd

55. Cwestiynodd sawl ymatebydd a oedd y mesurau mwyaf effeithiol wedi cael eu gosod o dan Nyth ac Arbed. Tynnodd Cyngor ar Bopeth sylw at y ffaith bod 93.6% o'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni a wnaed drwy Nyth yn osodiadau gwres canolog, sef gosod boeleri newydd yn bennaf. Awgrymodd y byddai mesurau eraill, megis inswleiddio waliau solet, waliau ceudod neu atigau, yn darparu manteision tymor hwy, ac yn osgoi'r angen i ailymweld ag aelwydydd a allai fod angen gwahanol opsiynau gwresogi yn y dyfodol.⁴²

"Nid gosod boeler newydd yw'r ateb bob tro, yn enwedig lle mae angen mynd i'r afael ag adeiladwaith yr adeilad."

Cyfranogwr grŵp ffocws, Rhondda Cynon Taf

56. Cwestiynodd Calor ai gosod boeleri olew newydd, mwy effeithlon oedd y defnydd gorau o adnoddau, o ystyried uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflawni allyriadau carbon sero-net erbyn 2050.⁴³ Gan gyfeirio at y ganran fawr o foeleri a osodwyd, esboniodd Nwy Prydain (sy'n cyflawni'r cynllun Nyth):

"By installing a new A rated boiler at customers properties, this gives us the highest fuel cost saving and increase in SAP rating performance against other measures. We will always look at additional opportunities (installing secondary measures) where possible to improve each customers energy efficiency, these measures will include cavity, external, loft and draught proofing insulation. Each survey will take into

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig FP29, Cyngor ar Bopeth

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig FP22, Calor

consideration the cap thresholds that are set in place by the Welsh Government.”⁴⁴

57. Yn ei hadroddiad, mae SAC yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru “ystyried datblygu casgliad mwy amlweddol o fesurau ar gyfer effaith ei rhaglenni a’i hymdrechion i drechu tlodi tanwydd, yn enwedig datblygu ei mesurau ar gyfer ei rhaglen Cartrefi Cynnes sy’n seiliedig ar ganfod sut y mae sefyllfa buddiolwyr yn well mewn ffyrdd sydd o bwys iddynt ochr yn ochr â gwelliannau i effeithlonrwydd ynni’r cartref”.⁴⁵

Maint y Rhaglen

58. Pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen i sicrhau y dylid ariannu unrhyw raglenni newydd sy’n deillio o’r strategaeth yn briodol. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:

“...the sheer scale of fuel poverty in Wales will require a much larger number of households per year to be lifted out of fuel poverty in comparison to what the Warm Homes Programme is delivering now.”⁴⁶

59. Gan wneud sylwadau ar gyllid ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni, nododd SAC:

“Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu golwg eang, yn unol â’r ffyrdd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, o ran sut y gallai cynlluniau tlodi tanwydd: atal costau mewn meysydd gwasanaeth eraill yn y dyfodol; a chyfrannu at nodau polisi ehangach, gan gynnwys y gostyngiad o 80% mewn carbon o dai erbyn 2050.”⁴⁷

Cynllun yn seiliedig ar ardaloedd (“Arbed” ar hyn o bryd)

60. Mae cynllun Arbed yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol a dim ond deiliaid tai sy’n byw mewn ardal gymwys sy’n gallu cael cymorth.⁴⁸

⁴⁴

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s99154/Cohebiaeth%20gan%20Nyth%20Saesneg%20yn%20unig%20-%20Chwefror%202020.pdf

⁴⁵ www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

⁴⁷ www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd

⁴⁸ “Mae’r broses o ddatblygu cynlluniau ochr yn ochr ag awdurdodau lleol unigol yn un fanwl a chynhwysfawr, sy’n cynnwys defnyddio data a gwybodaeth am ardaloedd penodol (er enghraifft y

61. Mae adroddiad SAC yn cyfeirio at fethiant Arbed i wario'r gyllideb a ddyrannwyd iddo, gan ddweud:

“Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynllun Arbed wedi ei chael yn anodd gwario'i ddyraniad...Yn 2018-19, blwyddyn gyntaf Arbed 3, dim ond £1.2 miliwn yr oedd wedi'i wario, sy'n danwariant sylweddol o £7.8 miliwn yn erbyn cyllideb o £9.0 miliwn. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod hyn yn adlewyrchu oedi cyn rhoi cam 3 ar waith oherwydd her gyfreithiol i'w benderfyniad ynghylch dyfarnu'r contract. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i weithgarwch gynyddu'n sylweddol yn awr...”⁴⁹

62. Roedd sawl ymatebydd yn cwestiynu a oedd y cynllun yn effeithiol o ran targedu'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd neu sydd â'r angen mwyaf am gymorth. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oedd y defnydd o ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ('Malc') i nodi ardaloedd cymwys yn ddigon soffistigedig. Cyfeiriodd Cartrefi Cymunedol Cymru at Ddata Sylfaen Cymru Gynnes ar gyfer Strategaethau Ynni Cadarn ('FRESH') ar gyfer Mapio bregusrwydd tai fel dewis arall posibl, gan ddweud:

“areas need to be chosen in maybe a more sophisticated way, looking at fuel poverty, looking at poor household condition, low incomes and poor health.”

63. Esboniodd Arbed am Byth y broses ar gyfer nodi ardaloedd cymwys a phwysleisiodd ei bod yn “gweithio'n agos iawn” gydag awdurdodau lleol, oherwydd eu gwybodaeth leol. Yn ei adroddiad, mae SAC yn nodi, “yn y dechrau roedd gan gynghorau rôl allweddol yn y cynllun Arbed”. Aiff ymlaen i ddweud:

“Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod cynghorau bellach yn brwydro i ddod o hyd i'r capasiti i ymgysylltu ag Arbed, sy'n egluro rhywfaint o'r tanwariant rhwng 2016 a 2018. Ar gyfer Arbed 3, fe newidiodd Llywodraeth Cymru y contract i leihau'r ddibyniaeth ar fewnbwn cynghorau.”

tueddiad i gartref yn yr ardal fod mewn tlodi tanwydd a Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru). Ein nod yw datblygu set ddata gynhwysfawr a chanolbwyntio'n arbennig ar unrhyw ardaloedd y gall y data hyn nodi eu bod mewn tlodi tanwydd difrifol neu'n wynebu mwy o risg o fod mewn tlodi tanwydd, er mwyn sicrhau bod cymorth yn targedu'r rhai hynny sydd ei angen fwyaf”.

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Arbed 2018-19

⁴⁹ www.audit.wales/cy/cyhoeddi/tlodi-tanwydd

64. Fodd bynnag, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn anghytuno â hyn, a nododd fod y prif anawsterau o ran cyflawni'r rhaglen Arbed yn ymwneud â materion ymarferol sy'n codi o'r cynllun ei hun, megis amserlenni byr ar gyfer cyflawni mentrau.

Cynllun yn seiliedig ar anghenion (“Nyth” ar hyn o bryd)

65. Awgrymodd mwyafrif y rhai a wnaeth sylwadau ar Nyth fod angen gwneud newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd i dargedu'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn fwy effeithiol ac i ddarparu cefnogaeth i aelwydydd incwm isel.

66. Tynnodd Panel o Benaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru ar gyfer Tai yn y Sector Preifat ac Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn sylw at y ffaith, yn y flwyddyn adrodd 2018-19, nad oedd 57% o'r aelwydydd a dderbyniodd becyn effeithlonrwydd ynni drwy Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd. O'r herwydd, nid oedd y cynllun yn targedu'r rhai a oedd â'r angen mwyaf.⁵⁰

67. Cododd sawl ymatebydd bryder bod defnyddio budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd i bennu cymhwysedd yn eithrio'n awtomatig nifer sylweddol o aelwydydd incwm isel y mae angen cymorth arnynt. Roedd hyn yn peri pryder arbennig o ystyried y cynnydd mewn tlodi mewn gwaith a'r cyfraddau tlodi tanwydd ymhlith pensïynwyr ar incwm isel sefydlog.

“Rydyn ni'n helpu mwy a mwy o bobl o hyd. Erbyn hyn mae'r rhaniad tua 50/50 o ran teuluoedd sydd mewn gwaith ac allan o waith.”

Cyfranogwr grŵp ffocws, Powys

68. Yn yr un modd, esboniodd Cymru Gynnes fod defnyddio budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd fel maen prawf yn gadael “cyfran fawr” o aelwydydd yn anghymwys i gael gwelliannau effeithlonrwydd ynni. Nododd:

“We're missing those single people with no children who are working on a basic wage, in private rental, they have a landlord who isn't going to fix their boiler; we can't help them. Pensioners who've worked all their lives who just miss out on pension credit by £2, they don't have any money.”⁵¹

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig FP30, Panel o Benaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru ar gyfer Tai yn y Sector Preifat; a thystiolaeth ysgrifenedig FP12, Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 239, 8 Ionawr 2020

69. Roedd sawl ymatebydd, gan gynnwys NEA Cymru⁵² a Gofal a Thrwsio⁵³, yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ymestyn cymhwysedd i aelwydydd incwm isel â chyflyrau iechyd anadlol neu gylchrediad y gwaed. Fodd bynnag, esboniodd Gofal a Thrwsio fod budd-daliadau anabledd yn cael eu trin fel incwm yng nghyfrifiadau incwm y cartref. O ganlyniad, y mwyaf o anabledd sydd ar aelwyd, y mwyaf o fudd-dal y mae'n ei dderbyn a'r mwyaf tebygol ydynt o fod y tu allan i drothwy incwm Nyth.⁵⁴

Gwaith galluogi

70. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith bod cost gwaith galluogi, nad yw'n cael ei ariannu'n rheolaidd o dan y cynlluniau cyfredol, yn aml yn atal aelwydydd rhag derbyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni o dan y cynlluniau. Eglurodd Panel Arbenigol Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru ar gyfer y Sector Tai Preifat⁵⁵ a Chyngor Sir Ceredigion⁵⁶, er y gallai Benthyciadau Gwella Cartrefi fod ar gael gan rai awdurdodau lleol, yn y mwyafrif o achosion lle mae cartrefi yn gymwys ar gyfer y cynlluniau Arbed neu Nyth ni fyddent yn bodloni'r gwiriad fforddiadwyedd ar gyfer y benthyciad.

71. Galwodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa ychwanegol hyblyg i fod ar gael ar gyfer 'cartrefi anodd eu trin', lle roedd angen gwaith ôl-osod neu wella ychwanegol.⁵⁷

Cyrraedd cartrefi sy'n agored i niwed

72. Pwysleisiodd y cyfranwyr bwysigrwydd llwybrau atgyfeirio lluosog ac amrywiol at gynlluniau effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd anaml y mae pobl yn ystyried eu hunain yn bobl sy'n dlawd o ran tanwydd. Ategwyd hyn gan ganfyddiadau Tîm Prosiect Gwyddorau Cymdeithasol FLEXIS ym Mhrifysgol Caerdydd, a ddangosodd y gallai "dibynnu ar hunan-gyfeirio er mwyn cael mynediad at gymorth gyda phroblemau ynni fod yn drafferthus".⁵⁸

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig FP27, NEA Cymru

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig FP32, Gofal a Thrwsio

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FP32, Gofal a Thrwsio

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig FP30, Panel Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru ar gyfer Tai yn y Sector Preifat

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig FP09, Cyngor Sir Ceredigion

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig FP05, Tîm Prosiect Gwyddorau Cymdeithasol FLEXIS, Prifysgol Caerdydd

Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru⁵⁹, Scope⁶⁰, ac awdurdodau lleol y gellid mynd i'r afael â hyn drwy gysylltiadau cryfach rhwng y meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

73. Awgrymodd rhai cyfranwyr y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori gwasanaeth cyngor yn y cartref mewn unrhyw fersiynau o'r cynlluniau yn y dyfodol. Esboniodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:

“people living with health problems, or who are older and frail, may still find it difficult to engage with the referral processes for fuel poverty programmes...while Nest and Arbed referrals can be made over the phone or in person, some older people’s lack of digital skills also removes an easy route to information about the programmes.”⁶¹

74. Ategwyd hyn gan Scope, a nododd fod pobl anabl yn fwy tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol neu eu bod yn wynebu anawsterau o ran cael gwybodaeth dros y rhyngwyd.⁶²

75. Cyfeiriodd Scope⁶³ a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni⁶⁴ ill dau at 'Energycarers' yn yr Alban, sef gwasanaeth cyngori mewnol gydag ymgynghorwyr ynni arbenigol i ddarparu cymorth dwys i aelwydydd bregus. Er bod y gwasanaeth yn ei ddyddiau cynnar o hyd, roedd cynllun peilot wedi nodi canlyniadau cadarnhaol.

76. Er bod Nwy Prydain wedi nodi bod Nyth yn cynnig cyngor yn y cartref, dim ond ar gyfer cartrefi a oedd yn llwyddiannus yng ngham cyntaf y broses ymgeisio am becyn effeithlonrwydd ynni cartref am ddim y darparwyd hyn.⁶⁵

Rhwymedigaeth Cwmni Ynni

77. Cynllun effeithlonrwydd ynni Llywodraeth y DU yw Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) i helpu i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Defnyddiwyd y cyllid ECO i ychwanegu at y cyllid ar gyfer Nyth a Arbed. Y cynllun

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP28, Cartrefi Cymunedol Cymru

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig FP26, Scope

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig FP26, Scope

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig FP26, Scope

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

⁶⁵ <http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s99154/Gohebiaeth%20gan%20Nyth%20Saesne%20yn%20unig%20-%20Chwefror%202020.pdf>

ECO diweddaraf yw'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni: Cynllun Cymorth i Wresogi - cymhwysedd hyblyg (Eco Flex⁶⁶).

78. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at ECO fel ffynhonnell gyllido bwysig ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Dywedodd Energy UK, ers dechrau'r cynllun (2013), fod 5.2% o bopeth a gyflawnwyd gan ECO wedi digwydd mewn cartrefi yng Nghymru, ychydig yn fwy na chyfran Cymru o gyfanswm poblogaeth Prydain Fawr (4.8%), ac yn ystod chwarter llawn cyntaf ECO3, cynyddodd cyfran Cymru o'r rhwymedigaeth i 7%.⁶⁷

79. Fodd bynnag, cododd sawl ymatebydd bryderon nad oedd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r cynllun yn effeithiol. Fe wnaethant dynnu sylw at ddiffyg adnoddau a gallu o fewn awdurdodau fel rhwystrau i ymgysylltu ag ECO Flex. Cadarnhaodd Cyngor Sir Ceredigion fod y gallu i geisio cyllid ECO Flex yn rhagweithiol yn amrywio ar draws awdurdodau.⁶⁸

80. Galwodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl am fwy o weithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei dylanwad wrth ddarparu dull strategol o gael gafael ar gyllid yn y ffordd fwyaf effeithlon.⁶⁹ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a oedd yn argymhell rhaglen gymorth ganolog Gymreig i helpu awdurdodau lleol i fanteisio ar ECO.⁷⁰ Mabwysiadwyd y dull hwn yn yr Alban, sy'n derbyn cyfran uwch o gyllid ECO y pen na Chymru neu Loegr.

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

81. Wrth ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, cydnabu'r Gweinidog y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn ar yr angen i ehangu'r Rhaglen Cartrefi Clyd er mwyn dileu tlodi tanwydd. Nododd:

“Os derbynnir yr amcangyfrifon hyn, yna bydd angen dyblu nifer y cartrefi sy'n elwa ar fuddsoddiad trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sef 6000 cartref y flwyddyn ar gyfartaledd ar hyn o bryd. Ystyrir hyn fel rhan o'n

⁶⁶ Mae Eco Flex yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol drafod â chyflenwyr ynni ynghylch sut y mae'r cyflenwyr yn cyflawni eu rhwymedigaethau i osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi o dan y Rhwymedigaethau Cwmni Ynni.

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig FP25, Energ UK

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig FP09, Cyngor Sir Ceredigion

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP03, Gymdeithas Landlordiaid Preswyl

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

cynllun drafft newydd i drechu tlodi tanwydd y bwriadwn ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf.”⁷¹

82. Esboniodd y Gweinidog fod llwyddiant y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi “cael ei fesur gan y gwelliant yn y raddfa arbed ynni yn y cartrefi sydd wedi elwa o’r cynlluniau”. Dywedodd fod “Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro hyn”.⁷²

83. Esboniodd hefyd, o ystyried nifer yr aelwydydd a oedd eisoes wedi derbyn mesurau drwy’r Rhaglen Cartrefi Clyd ac ECO, fod “dod o hyd i glystyrau o gartrefi sy’n addas ar gyfer cynllun ardal wedi bod yn fwyfwy heriol”. Dywedodd y Gweinidog “[nad] oedd llawer o’r data cyhoeddus gan yr Awdurdodau Lleol o safon digonol i gefnogi datblygiad y prosiectau ardal”. O’r herwydd, roedd angen mwy o waith paratoi a dadansoddi data er mwyn datblygu rhaglen waith addas.⁷³

84. Wrth ymateb i’r pryder bod cartrefi incwm isel sy’n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd, yn anghymwys i gael cymorth o dan Nyth, eglurodd swyddog y Gweinidog fod y strategaeth newydd yn ceisio mynd i’r afael â hynny, mewn diffiniadau a thrwy’r camau gweithredu a’r cynigion y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno.⁷⁴

85. Cydnabu’r Gweinidog fod diffyg cefnogaeth i bobl sy’n byw mewn tlodi tanwydd allu gwneud gwaith galluogi yn amlwg yn broblem.⁷⁵ Nododd:

“...we recognise that this is something we are going to have to provide—look at providing additional funding for minor repairs...and that will definitely be part of our new strategy and plan.”⁷⁶

86. Cydnabu’r Gweinidog fod angen gwneud rhagor o waith i edrych ar sut rydym yn gwella argaeledd cyngor a chymorth yn y cartref, yn enwedig i bobl agored i niwed sy’n ymwneud llai â’r farchnad ynni.⁷⁷ Esboniodd fod Nyth yn

⁷¹

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s99446/Ymateb%20Llywodraeth%20Cymru%20ir%20Aargymhellion%20yn%20Adroddiad%20Y%20Pwyllgor%20Newid%20Hinsawdd%20Amgylchedd%20a%20Mater.pdf

⁷² Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020

⁷³ Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 110, 13 Chwefror 2020

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 200, 13 Chwefror 2020

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 208, 13 Chwefror 2020

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 13 Chwefror 2020

gweithredu gwasanaeth cyngori mewnol. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai fod angen i'r gwasanaeth gael ei deilwra'n fwy ac, o bosibl, y gall fod angen ei ymestyn.⁷⁸

87. Cydnabu'r Gweinidog y gellid gwneud mwy i ddenu cyllid drwy ECO Flex. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr Alban er mwyn dysgu gwersi, gyda'r bwriad o lywio'r strategaeth newydd a fersiynau o gynlluniau'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn y dyfodol.⁷⁹ Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

“...one of the key things we took [from Scotland] was the way that agents [from the Scottish Government's home energy efficiency schemes] had supported local authorities to develop the ECO Flex schemes, so that each local authority wasn't learning for themselves. They shared the learning and made it very much easier.”⁸⁰

88. Esboniodd hefyd, er y bu enghreifftiau da o gynlluniau ECO yng Nghymru, eu bod yn amrywio ar draws awdurdodau lleol.⁸¹

Ein barn ni

Mae datblygu strategaeth newydd yn rhoi cyfle i ystyried a ddylai'r Rhaglen Cartrefi Clyd barhau i weithredu a sut. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall cynlluniau sy'n seiliedig ar ardaloedd ac anghenion fod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae sawl maes pryder y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef os yw'n dymuno parhau â'r Rhaglen fel y mae ar hyn o bryd. Nodir y rhain isod.

Er gwaethaf buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Cartrefi Clyd, mae tlodi tanwydd yn parhau i fod yn broblem sylweddol yng Nghymru. Mae Nyth ac Arbed wedi helpu i wella effeithlonrwydd ynni mewn mwy na 55,000 o aelwydydd. Ond, o ystyried maint y broblem, roedd lefel y buddsoddiad yn y cynlluniau sylweddol is na'r hyn yr oedd ei angen i gyrraedd targed 2018. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddysgu gwersi o hyn. Os yw am ddileu neu hyd yn oed leihau tlodi tanwydd yn sylweddol o fewn amserlen dderbyniol, rhaid iddi fod yn barod i ehangu'r cynlluniau presennol a chynlluniau yn y dyfodol, a chynyddu buddsoddiad. Nid yw'r Pwyllgor wedi gweld tystiolaeth bod

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 239, 13 Chwefror 2020

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 13 Chwefror 2020

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 13 Chwefror 2020

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 13 Chwefror 2020

y naill gynllun presennol na'r llall yn barod i gael ei ehangu i'r lefelau angenrheidiol.

O ystyried bod Nyth a Arbed yn un o gonglfeini dull Llywodraeth Cymru o ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru, mae'r diffyg gwaith monitro cadarn o effaith y cynlluniau yn destun pryder difrifol. Heb ddata monitro cadarn, mae'n amhosibl gwerthuso a yw'r cynlluniau i bob pwrpas yn lleihau tlodi tanwydd, neu asesu gwerth am arian. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn fel blaenoriaeth.

Arbed

Yn ein hadroddiad, *Tai Carbon Isel: yr Her*, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ehangu a buddsoddi yn Arbed, gan gydnabod pwysigrwydd cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn yn awgrymu bod y cynllun presennol, Arbed 3, yn tanberfformio'n ddifrifol. Mae hyn yn bryder mawr.

Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar weithgaredd Arbed 3 ar ddiwedd ail flwyddyn y rhaglen. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd os yw'r cynllun yn parhau i danberfformio.

Nyth

Mae dadansoddiad o'r amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer 2018 yn awgrymu bod 72 y cant o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Dylai'r aelwydydd hyn fod yn gymwys i gael cymorth o dan y cynllun Nyth, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd eraill. Rhaid gwneud mwy i adnabod cartrefi sy'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd sy'n byw mewn tlodi tanwydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth.

O ystyried cyfraddau tlodi mewn gwaith yng Nghymru, credwn fod achos cryf dros ehangu meini prawf cymhwysedd Nyth i alluogi cartrefi incwm isel, nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, i gael gafael ar gymorth o dan y cynllun.

Gwaith galluogi

Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cydnabod y gall cost gwaith galluogi atal aelwydydd rhag cael gwelliannau ynni cartref o dan y cynlluniau. Dylai'r

strategaeth newydd sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i dalu costau gwaith galluogi ar gyfer yr aelwydydd sydd â'r angen mwyaf.

Rhaid neilltuo digon o amser wrth gynllunio a chyflawni cynlluniau i ganiatáu gwaith galluogi, lle mae angen cwblhau hyn cyn rhoi mesurau gwella effeithlonrwydd ynni ar waith.

Cyrraedd cartrefi sy'n agored i niwed

Nid problem yn ymwneud â thai yn unig yw tlodi tanwydd. Mae ei effaith yn bellgyrhaeddol ac yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol. Mae dull partneriaeth, cydgyssylltiedig o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn hanfodol. Yn ganolog i hyn mae gweithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau a sectorau i nodi'n rhagweithiol bobl sy'n agored i niwed sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddiodeff tlodi tanwydd.

Mae Adroddiad Blyneddol Nyth 2018-19 yn awgrymu bod 'gweithio mewn partneriaeth' i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a chynyddu cyfleoedd atgyfeirio yn un o'i flaenoriaethau allweddol. Ni chafodd hyn ei adlewyrchu yn y dystiolaeth a gawsom. Mae'r Gweinidog wedi cydnabod bod y 'rhwydwaith atgyfeirio' presennol yn dameidiog.

Rhaid i Lywodraeth Cymru wella ac ehangu ymgysylltiad partneriaethau yn yr agenda mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Rhaid iddi adeiladu ar y 'rhwydwaith atgyfeirio' a'i ddatblygu, gan gydnabod rôl allweddol awdurdodau lleol, a'r maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, wrth nodi aelwydydd a fyddai'n elwa o gyngor a chefnogaeth. Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus chwarae rhan bwysig wrth ddod â gwahanol wasanaethau ynghyd. Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion ar sut y gellir annog Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i chwarae rôl arwain yn y maes polisi hwn.

Er bod Nyth yn darparu cyngor effeithlonrwydd ynni am ddim i bob cartref, mae llawer o'i waith cynghori yn cynnwys cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth trydydd parti. Gall cartrefi sy'n agored i niwed fod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau y cânt eu cyfeirio atynt neu efallai na fydd yn bosibl iddynt wneud hynny, yn enwedig os ydynt wedi'u hallgáu yn ddigidol.

Credwn fod achos cryf dros sefydlu gwasanaeth cyngor a chymorth yn y cartref i aelwydydd sy'n agored i niwed sy'n debygol o brofi rhwystrau o ran cael mynediad at gymorth. Dylai'r gwasanaeth hwn fod yn siop un stop, gan ddarparu cymorth uniongyrchol, er enghraifft, wrth fanteisio ar hawliau ariannol a newid cyflenwyr ynni.

Cynllun ECO

Rhaid i Gymru fanteisio i'r eithaf ar Rwymedigaeth Cwmni Ynni Llywodraeth y DU i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref presennol a chynlluniau o'r fath yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid yw mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn ECO Flex, sy'n siomedig. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i nodi'r rhwystrau rhag ymgysylltu. Gan gyfeirio at arfer gorau, rhaid iddi sefydlu dull cymorth addas i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn gallu manteisio i'r eithaf ar ECO Flex a chynlluniau olynol.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Nyth ac Arbed am Byth i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn, sy'n cynnwys mesur effaith y cynlluniau ar dlodi tanwydd.

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag Arbed am Byth, a'i phartneriaid, i roi dulliau mwy soffistigedig ar waith ar gyfer targedu cymorth o dan y cynllun tuag at yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar:

- nifer yr eiddo a gafodd eu gwella a chyfanswm y gwariant drwy Arbed 3 ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen tair blynedd;
- y camau y mae'n bwriadu eu cymryd pe bai ffigurau ar welliannau a gwariant yn awgrymu bod Arbed 3 yn parhau i danberfformio.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer pecynnau gwella effeithlonrwydd ynni am ddim o dan Nyth, gan ystyried y diffiniad newydd o dlodi tanwydd. Rhaid i'r adolygiad ystyried, yn benodol, ehangu'r meini prawf cymhwysedd i gynnwys aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddiodef tlodi tanwydd.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd i dalu cost gwaith galluogi i aelwydydd na fyddent fel arall yn gallu elwa o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref o dan gynlluniau'r llywodraeth.

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar y dystiolaeth a gafwyd am yr angen i neilltuo digon o amser i gwblhau gwaith galluogi cyn gwella effeithlonrwydd ynni o dan gynlluniau.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth cyngor a chymorth mewnol ar gyfer cartrefi sy'n agored i niwed sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd. Dylai'r gwasanaeth:

- weithredu ar sail dull cyfannol, gan ddarparu cyngor a chymorth ar wella effeithlonrwydd ynni, cynyddu incwm i'r eithaf a lleihau costau ynni;
- darparu cymorth uniongyrchol i aelwydydd, er enghraifft, i fanteisio ar hawliau ariannol, gwirio tariffau ynni a newid cyflenwyr ynni.

Argymhelliad 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu dull cymorth addas i alluogi awdurdodau lleol i sicrhau'r cyllid mwyaf posibl ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni drwy ECO Flex.

4. Helpu pobl i dalu llai am ynni

Mesuryddion rhagdalau a mesuryddion deallus

89. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i annog defnyddio mesuryddion deallus fel ffordd o leihau costau ynni. Fe wnaethant awgrymu y byddai mesuryddion deallus o fudd arbennig i aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n agored i niwed, gan gynnwys cwsmeriaid rhagdalau. Dywedodd Ynni Clyfar GB fod treialon yn "dangos arbedion ynni o 5-20%".⁸²

90. Cododd sawl ymatebydd bryder ynghylch y defnydd parhaus o fesuryddion rhagdalau a'r gydberthynas rhwng y dull hwn o dalu a thlodi tanwydd. Esboniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod aelwydydd sy'n defnyddio mesurydd rhagdalau ddwywaith yn fwy tebygol o fethu â fforddio gwresogi eu cartref yn ddigonol a bod chwarter yr holl aelwydydd sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalau yn dlawd o ran tanwydd.⁸³ Adroddodd Ynni Clyfar GB fod 19% o aelwydydd yng Nghymru yn defnyddio mesuryddion rhagdalau. Esboniodd, yn draddodiadol, mai talu ymlaen llaw oedd y ffordd ddrutaf a'r mwyaf anghyfleus o brynu ynni.⁸⁴ Mynegwyd barn debyg gan Cymru Gynnes.⁸⁵

Newid cyflenwyr ynni neu dariffau

91. O dan reoliadau Ofgem, mae'n ofynnol i gyflenwyr ynni hysbysu cwsmeriaid am eu cynigion ynni rhataf. Gwneir hyn drwy gynnwys gwybodaeth am filiau ynni cwsmeriaid. Fodd bynnag, nododd Cymru Gynnes nad oedd y rhan fwyaf o'i gleientiaid yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.⁸⁶

"Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut mae marchnadoedd ynni'n gweithio nesaf peth at ddim. Fe wnes i gynorthwyo un gŵr i arbed £825 y flwyddyn ar ei filiau tanwydd. Roedd ar fesurydd rhagdalau a newidiodd i dalu drwy ddebyd uniongyrchol. Weithiau mae'n fater o arfer - mae pobl yn teimlo'n gyffyrddus yn cadw at yr hyn maen nhw'n gyfarwydd ag ef."

Cyfranogwr grŵp ffocws, Merthyr Tudful

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig FP06, Ynni Clyfar GB

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig FP24, Iechyd Cyhoeddus Cymru

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FP06, Ynni Clyfar GB

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig FP11, Cymru Cynnes

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig FP11, Cymru Cynnes

92. Pwysleisiodd Scope fod pobl anabl yn fwy tebygol o fod wedi'u hallgáu yn ddigidol ac felly byddant yn cael anhawster newid cyflenwyr neu dariffau ynni. Yn ôl Scope, dim ond 36 y cant o bobl anabl sy'n defnyddio safleoedd cymharu prisiau i gymharu cynigion ynni, o gymharu â 57 y cant o bobl nad ydynt yn anabl.⁸⁷

Cynyddu incwm i'r eithaf

93. Roedd consensws cyffredinol bod angen gweithredu ymhellach i wella ymwybyddiaeth o hawliau ariannol a'r nifer sy'n manteisio arnynt, yn enwedig Credyd Pensiwn, fel ffordd o helpu aelwydydd i sicrhau'r incwm mwyaf posibl. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

“Mae cynyddu incwm aelwydydd yn ffactor sylweddol o ran atal tlodi tanwydd ac mae'n hanfodol i bobl hŷn fod yn gwbl ymwybodol o'r holl hawliadau ariannol y maent yn gymwys i'w derbyn, a'u bod yn cael eu hannog i hawlio'r rhain. Amcangyfrifir bod hyd at £214m o Gredyd Pensiwn nad yw'n cael ei hawlio yng 2 Nghymru bob blwyddyn.”⁸⁸

94. Yn ôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (y Comisiynydd), mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut i wella'r nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn. Galwodd am ddulliau cyllido yn deillio o waith y grŵp.⁸⁹ Gwnaeth y Comisiynydd amryw o awgrymiadau i wella'r nifer sy'n manteisio ar y cyllid sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys efelychu rhaglen 'Make the Call' Gogledd Iwerddon, a phwyso ar Lywodraeth y DU i symleiddio'r broses ymgeisio.⁹⁰

95. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at Daliadau Tanwydd Gaeaf fel ysgogiad pwysig i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith pobl hŷn. Awgrymodd E.ON y gallai targedu taliadau yn well at y rhai sydd â'r angen mwyaf ryddhau tuag £1 biliwn ledled y DU.⁹¹ Credai Sefydliad Bevan fod achos dros ddatganoli Taliad Tanwydd Gaeaf i Gymru.⁹²

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig FP26, Scope

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig FP07, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 8 Ionawr 2020

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 149 a 151, 8 Ionawr 2020

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP14, E.ON

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig FB17, Sefydliad Bevan

96. Menter gan Lywodraeth y DU yw'r Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes y gall cwsmeriaid cymwys⁹³ gael mynediad iddi er mwyn cael gostyngiad untro oddi ar eu bil trydan⁹⁴. Mae rhai cwsmeriaid yn cael y gostyngiad yn awtomatig (y 'grŵp craidd'), tra bod yn rhaid i eraill wneud cais (y 'grŵp ehangach'). Ar gyfer y 'grŵp ehangach', dyfernir y gostyngiad ar sail y cyntaf i'r felin.

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

97. Esboniodd y Gweinidog fod llinell gymorth Nyth yn darparu ystod o gyngor, gan gynnwys cyngor ar leihau biliau ynni, newid cyflenwyr ynni, a gwella tariffau. Yn ôl Adroddiad Blynyddol Nyth 2018-19, cafodd mwy na 3,000 o alwyr eu cyfeirio at Uswitch, gwasanaeth arbed ynni.⁹⁵

98. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cwrdd ag Ofgem ddwywaith y flwyddyn⁹⁶, er bod cyswllt mwy rheolaidd yn digwydd ar lefel swyddogion⁹⁷. Esboniodd swyddog y Gweinidog:

“There is representation within the Ofgem office, people who are based in Wales and represent Welsh interests in Ofgem decisions...I think we are recognised as an important stakeholder for Ofgem, and I think our interests have a high degree of alignment. Could we be more represented? Could we have a louder voice? Probably. Would that make a hugely material difference to the direction they're going in? At the moment, I suspect not. We are very closely aligned, but we could always do more.”⁹⁸

Ein barn ni

Prisiau ynni yw un o'r prif ffactorau sydd i'w gyfrif am dlodi tanwydd. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth uniongyrchol dros brisiau, mae llawer y gall ei wneud i helpu cartrefi i ostwng biliau ynni. Hyd yn hyn, mae'r camau

⁹³ Mae dau grŵp cymwys o bobl a all fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes: y rhai sy'n derbyn yr elfen Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn (y 'grŵp craidd'); a'r rhai ar incwm isel, sy'n bodloni meini prawf eu cyflenwr ynni ar gyfer y cynllun (y 'grŵp ehangach'). Dim ond os yw eu cyflenwyr ynni yn rhan o'r cynllun y bydd pob ymgeisydd yn llwyddiannus.

⁹⁴ Disgownt o £140 ar gyfer gaeaf 2019 i 2020.

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 13 Chwefror 2020

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 13 Chwefror 2020

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 13 Chwefror 2020

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 121 a 127, 13 Chwefror 2020

gweithredu wedi canolbwyntio ar ddarparu cyngor i aelwydydd drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

Ers cyhoeddi Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010 Llywodraeth Cymru, mae Ofgem wedi cyflwyno pecyn o ddiwygiadau gyda'r nod o wneud y farchnad ynni yn 'symlach, yn cliriach ac yn decach' i ddefnyddwyr.⁹⁹ Er gwaethaf hyn, ac ymdrechion drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, mae gormod o aelwydydd yng Nghymru yn dal i dalu gormod i gynhesu eu cartrefi.

Rhaid dod â'r 'premiwm tlodi' ar gost ynni i ben. Mae bron i un o bob pum aelwyd yng Nghymru yn defnyddio mesuryddion rhagdalau. Mae mesuryddion rhagdalau yn cosbi aelwydydd a allai eisoes fod yn ei chael hi'n anodd fforddio cynhesu eu cartrefi, gan eu gorfodi i fyw mewn tlodi tannwyd neu waethygu eu sefyllfa bresennol.

Gall disodli mesuryddion rhagdalau â mesuryddion deallus helpu, yn rhannol, i fynd i'r afael â'r 'premiwm tlodi' a lleihau biliau ynni i'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o'i ddioddef. Dylai strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â sut y gellir cynyddu'r defnydd o fesuryddion deallus ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â darparwyr ynni a phartneriaid dibynadwy.

Mae gormod o bobl hŷn yng Nghymru nad ydynt yn manteisio ar Gredyd Pensiwn. Bydd mynd i'r afael â hyn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi yn ei ffurf ehangach, a gallai ddarparu llwybr allan o dlodi tanwydd i aelwydydd pensiywr. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y mater hwn. Rhaid i ganfyddiadau'r grŵp gael eu dilyn gan gamau uniongyrchol a phendant gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r hyn a fu'n broblem hirsefydlog yng Nghymru.

Yn olaf, rhaid i Lywodraeth Cymru geisio cael llais cryfach wrth ddatblygu mentrau ledled y DU, er enghraifft, y Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes. Mae meithrin perthnasoedd gwaith cryf â Llywodraeth y DU ac Ofgem yn allweddol i hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei pherthynas bresennol ag Ofgem i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ar draws y diwydiant ynni.

⁹⁹ www.ofgem.gov.uk/electricity/retail-market/market-review-and-reform/retail-market-review/simpler-clearer-fairer-market-reforms

Argymhelliad 15. Dylai'r strategaeth tlodi tanwydd newydd anelu at gynyddu'r defnydd o fesuryddion deallus mewn cartrefi ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio mesuryddion rhagdal, a'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o'i ddioddef.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddarparu manylion y grŵp gorchwyl a gorffen ar hyrwyddo'r nifer sy'n derbyn Credyd Pensiwn, gan gynnwys ei gylch gorchwyl a'r amserlen ar gyfer ei waith,
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen, ac ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd a'r amserlenni dan sylw.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrhau cynrychiolydd o Gymru ar Fwrdd Ofgem a chryfhau presenoldeb y rheolydd yng Nghymru.

5. Cefnogi ardaloedd gwledig

99. Yn ôl amcangyfrifon diweddaraf tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru, roedd aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi tanwydd. O'r holl aelwydydd mewn lleoliadau gwledig, roedd 14 y cant yn dlawd o ran tanwydd, o'i gymharu â 10 y cant mewn ardaloedd trefol. Noda y gallai hyn, yn rhannol "adlewyrchu cyfran fwy o aelwydydd mewn ardaloedd gwledig heb wres canolog".¹⁰⁰

100. Er bod cynlluniau Nyth ac Arbed Llywodraeth Cymru yn cwmpasu'r holl ardaloedd daearyddol, awgrymodd yr ymatebwyr y dylai'r cynlluniau fethu â mynd i'r afael â'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig.

"Mae rhai o fy nghleientiaid i'n defnyddio olew ac yn methu ei fforddio, ond does ganddyn nhw ddim llawer o ddewis. Mae un fenyw rwy'n rhoi cyngor iddi yn byw yn ystafell fyw ei thŷ gyda thŷ nwy un bar. Mae'n rhaid iddi ymbalfalu i gael gafael ar boteli nwy gan ffrindiau sy'n gweithio yn y maes adeiladu.

Os na all pobl fforddio llenwi eu tanc olew, fe fyddan nhw'n mynd i'r orsaf betrol ac yn talu 75c am litr o gerosin i gynhesu eu cartref."

Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Benfro

101. Dywedodd Calor nad yw 17 y cant o eiddo Cymru yn defnyddio'r prif gyflenwad nwy, a'u bod yn dibynnu ar nwy petrolewm hylifedig, olew neu drydan i'w gwresogi, sydd ar gyfartaledd yn ddrytach.¹⁰¹ Mae cyfran uchel o'r cartrefi hyn mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft, Ceredigion, lle nad yw 83.4 y cant o eiddo yn cael nwy o'r prif gyflenwad.¹⁰² Yn ôl Cyngor Sir Ceredigion:

"...these households are heavily reliant on more expensive forms of heating such as oil with the need for bulk purchases. Paying for such fuel is challenging amongst low-income households, leading to self-disconnection and under-use of heating."¹⁰³

¹⁰⁰ <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP22, Calor

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig FP09, Cyngor Sir Ceredigion

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig FP09, Cyngor Sir Ceredigion

102. Adroddodd Calor fod cynlluniau effeithlonrwydd ynni wedi methu â thargeddu cartrefi gwledig yn iawn sydd wedi arwain at dangyflawni hanesyddol mewn perthynas â'r cartrefi sydd angen eu huwchraddio fwyaf.¹⁰⁴

103. Pwysleisiodd Cyngor Gwynedd¹⁰⁵ a Calor¹⁰⁶ fod angen gwahanol fesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer eiddo gwledig a dylai cynlluniau ystyried hyn. Dywedodd Calor:

“With rural properties often being older, stone-built and off-grid, many of the retrofitting measures offered by Arbed and Nest are not appropriate solutions to improving fuel poverty and energy efficiency in these homes.”¹⁰⁷

104. Er bod capiau gwariant Nyth yn uwch ar gyfer cartrefi gwledig, nododd yr ymatebwyr nad oedd y cyllid yn ddigonol ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol mewn eiddo 'anodd ei drin', sy'n gyffredin mewn ardaloedd gwledig. Yn ôl Cartrefi Cymunedol Cymru, mae angen ymyriadau a chyllid sylweddol ar yr eiddo hyn. Galwodd am ymchwil bellach i nodi cyfres o fesurau sy'n gwella perfformiad ynni eiddo sy'n anodd eu trin yn effeithiol, gan ddarparu gwerth am arian i denantiaid a chymdeithasau tai ar yr un pryd.¹⁰⁸

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

105. Pan ofynnwyd iddi a yw wedi ystyried cymorth wedi'i deilwra ar gyfer ardaloedd gwledig, dywedodd y Gweinidog:

“...it's certainly something that we have considered, and we can continue to consider with the new strategy.”¹⁰⁹

106. Cydnabu'r Gweinidog, er bod olew yn parhau i fod yn un o'r mathau rhataf o danwydd sy'n darparu gwres mewn ardaloedd lle nad oes prif gyflenwad nwy, mae ei ddefnydd parhaus yn tanseilio'r hyn y mae'r llywodraeth yn ceisio ei wneud ar ddatgarboneiddio ei stoc dai.¹¹⁰

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FP22, Calor

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig FP19, Cyngor Gwynedd

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig FP22, Calor

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig FP22, Calor

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig FP28, Cartrefi Cymunedol Cymru

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 13 Chwefror 2020

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 13 Chwefror 2020

107. Esboniodd y Gweinidog fod capiau gwariant y cynllun effeithlonrwydd ynni yn fwy hael mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid nwy, ar £12,000, o'i gymharu â £5,000 ar gyfer ardaloedd sydd ar y grid. Roedd hyn er mwyn ystyried yr angen am welliannau mwy cymhleth a chostus.¹¹¹ Esboniodd hefyd y bydd Llywodraeth Cymru, "yn ystyried, ac os yw'n briodol, yn cymeradwyo camau sy'n costio mwy na'r hyn y mae'r cap yn ei ganiatáu ar hyn o bryd".¹¹²

108. Cydnabu'r Gweinidog y bydd technolegau sy'n dod i'r amlwg yn arwain at fwy o opsiynau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd sydd oddi ar y grid.¹¹³ Defnyddir Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru, sy'n treialu ac yn gwerthuso technolegau newydd, i helpu i nodi opsiynau priodol.¹¹⁴

Ein barn ni

Rhaid i'r strategaeth newydd fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig. Un o wendidau Strategaeth 2010 oedd nad oedd yn rhoi digon o bwys ar y maes hwn. At hynny, nid yw'r cynlluniau presennol wedi'u hanelu at fynd i'r afael â'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â gwella effeithlonrwydd ynni mewn eiddo gwledig.

Rydym yn pryderu bod y capiau gwariant presennol yn atal aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ac sy'n byw mewn eiddo 'anodd eu trin' rhag elwa o'r cynlluniau presennol. Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu hyn fel blaenoriaeth. Mae risg y bydd y bwlch presennol rhwng lefelau tlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig a threfol yn ehangu, os bydd eiddo sy'n haws eu gwella yn parhau i gael eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth.

Gall cost welliannau effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd gwledig fod yn uchel ac, mewn rhai achosion, yn afresymol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, yn y dyfodol, y bydd cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn gallu cefnogi aelwydydd nad ydynt ar y grid nwy.

Argymhelliad 18. Dylai'r strategaeth tlodi tanwydd newydd gynnwys darpariaethau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn gynnwys rhaglen bwrpasol gyda lefelau priodol o

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 13 Chwefror 2020

¹¹² [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 3 Mawrth 2020](#)

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 13 Chwefror 2020

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 62-63, 5 Chwefror 2015

gyllid sy'n ystyried y mesurau mwy cymhleth a chostus sy'n ofynnol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig.

6. Ansawdd adeiladau yng Nghymru

Adeiladu ar Safon Ansawdd Tai Cymru

109. Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yw safon Llywodraeth Cymru ar gyfer ansawdd tai cymdeithasol. Mae'r SATC yn cynnwys gofyniad i'r holl dai cymdeithasol gyflawni sgôr Perfformiad Asesu Safonol o 65 o leiaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i'r holl dai cymdeithasol gyrraedd SATC cyn gynted â phosibl, ond erbyn mis Rhagfyr 2020 fan bellaf.¹¹⁵

110. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r amcangyfrifon tlodi tanwydd diweddaraf yn dangos bod 9 y cant o denantiaid tai cymdeithasol yn byw mewn tlodi tanwydd, o'i gymharu â 12 y cant o'r holl aelwydydd. Mae tlodi tanwydd yn y sector tai cymdeithasol wedi gostwng 17 y cant er 2008.¹¹⁶

111. Cydnabuwyd y gwelliannau yn safon tai cymdeithasol, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, yn deillio o'r SATC. Er enghraifft, nododd Sefydliad Tai Siartredig Cymru:

“...social housing is by some margin, the most efficient form of tenure with 50 per cent of homes achieving EPC rating band C or above. This is compared to around 25 per cent for homes in the private rented sector and those that are owner occupied. This difference is clear evidence of the impact achieved through the activity bringing homes in line with the WHQS.”¹¹⁷

112. Er bod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cydnabod cyflawniadau SATC, galwodd am dargedau mwy uchelgeisiol, gan gydnabod y byddai hyn yn cefnogi agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.¹¹⁸ Mynegwyd barn debyg gan Cartrefi Cymunedol Cymru, a nododd:

“...now we need to go further to reach an EPC A, because getting a property up to an EPC C might make you a little bit more comfortable

¹¹⁵ **Dengys y ffigurau diweddaraf** fod 93% o anheddau tai cymdeithasol yn cydymffurfio â'r SATC. Mae cydymffurfiaeth â'r SATC yn uwch ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gyda 99% yn cyflawni cydymffurfiaeth SATC o'i gymharu ag 84% o anheddau awdurdodau lleol.

¹¹⁶ https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018?_ga=2.109665605.1739194294.1584463959-768884129.1582223051

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig FP21, Sefydliad Tai Siartredig Cymru

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

in your home, but your bills aren't going to be less and you're still going to be living in debt...Although we've dropped to 9 per cent, that's 20,000 households in the social sector still living in fuel poverty, and that's 20,000 too many. So, I think we need to build on the good work with the right support and investment and funding behind it. We need to build on that good work to eradicate the problem for good."¹¹⁹

113. Ailbwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen am ddull cyfannol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd sydd, yn ogystal â cheisio gwella effeithlonrwydd ynni, yn mynd i'r afael ag incwm isel aelwydydd a chostau ynni uchel hefyd. Darparodd Cartrefi Cymunedol Cymru amrywiol enghreifftiau o sut roedd y sector yn darparu cyngor a chymorth i denantiaid i helpu i gynyddu incwm, newid cyflenwyr ynni, a gwneud newidiadau mewn ymddygiad.¹²⁰ Yn yr un modd, nododd Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn ei bod yn defnyddio 'Wardeiniaid Ynni' a 'Swyddogion Cynhwysiad Ariannol' i helpu i fynd i'r afael â'r defnydd aneffeithlon o ynni ymhlith tenantiaid, ac i roi cyngor a chefnogaeth ychwanegol iddynt.¹²¹

Y defnydd o'r Sector Rhentu Preifat

114. Yn ôl amcangyfrifon tlodi tanwydd 2018 Llywodraeth Cymru, y sector rhentu preifat sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae amcangyfrifon yn dangos bod tuag 20% o'r holl aelwydydd sy'n byw mewn cartref sy'n cael ei rentu'n breifat yn dioddef tlodi tanwydd o gymharu ag 11% o berchnogion feddiannwyr a 9% o'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

115. Priodolwyd lefelau tlodi tanwydd yn y sector rhentu preifat, yn rhannol, i'r gyfran uchel o stoc dai a adeiladwyd cyn 1919 ac aelwydydd incwm isel. I ychwanegu at hyn, roedd y sector yn cael ei ddefnyddio i gartrefu niferoedd cynyddol o denantiaid sy'n agored i niwed.¹²²

116. Esboniodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl nad yw'r cynlluniau presennol wedi gwneud fawr ddim i leihau tlodi tanwydd yn y Sector Rhentu Preifat ac nad oes fawr o gyllid a chymorth i landlordiaid yn y sector hwn o'i gymharu â'r sector tai cymdeithasol.¹²³ Mynegwyd barn debyg gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru, a nododd:

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 186 a 188, 8 Ionawr 2020

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig FP28, Cartrefi Cymunedol Cymru

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FP12, Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig FP03, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig FP03, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl

“...we are concerned that private landlords who are largely smaller businesses, may not be able to leverage the investment required to upgrade their homes at the pace, scale and to the standard required without considerable technical support and expertise to draw from, in addition to financial support.”¹²⁴

Cartrefi newydd yng Nghymru

117. Roedd barn gymysg ymhlith ymatebwyr am y safonau presennol ar gyfer tai newydd. Er bod rhai yn credu bod tai newydd eisoes yn effeithlon iawn o ran ynni, pwysleisiodd eraill bwysigrwydd safonau uwch er mwyn osgoi'r angen am waith ôl-osod yn y dyfodol. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:

“95% of new build EPCs issued in 2019 in Wales are C or above, the large majority are in the B category. It is therefore the case that fuel poverty in homes built to today's building regulations is likely to be a very marginal problem in Wales.”¹²⁵

118. Argymhellodd y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru ('y Grŵp Cynghori'), erbyn 2025, bod yn rhaid adeiladu pob cartref newydd i fod yn garbon isel, yn effeithlon o ran ynni a dŵr ac yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Yn ogystal â hynny, erbyn 2021, dylai pob cartref newydd a gaiff ei adeiladu gyda chyllid y sector cyhoeddus gyrraedd y safonau hyn. Er bod Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru yn cefnogi'r argymhelliad, fe wnaethant amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r sector tai cymdeithasol o ran datblygu cartrefi fforddiadwy carbon isel, sy'n effeithlon iawn o ran ynni a chyrraedd targedau tai fforddiadwy.¹²⁶

119. Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru gan alw am fuddsoddiad parhaus yn y rhaglen.

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FP21, Sefydliad Tai Siartredig Cymru

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig FP23, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig FP21, Cymdeithas Tai Siartredig Cymru; a thystiolaeth ysgrifenedig FP28, Cartrefi Cymunedol Cymru

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

120. Eglurodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £108 miliwn bob blwyddyn i helpu landlordiaid cymdeithasol i fodloni gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n cynnwys gwelliannau i effeithlonrwydd ynni.¹²⁷

121. Esboniodd y Gweinidog fod tenantiaid y Sector Rhentu Preifat yn gymwys i wneud cais am welliannau effeithlonrwydd ynni drwy Nyth. Gelli gwneud gwelliannau i uchafswm o dri eiddo sydd dan berchnogaeth landlord, ond gall Llywodraeth Cymru roi caniatâd ar gyfer gwneud gwelliannau i fwy lle mae achos dilys dros wneud hynny.¹²⁸

122. Dywedodd y Gweinidog fod cefnogaeth i'r Sector Rhentu Preifat (SRhP) wedi'i hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar Nyth yn 2016:

“Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn derbyn ar y cyfan y dylai landlordiaid preifat fod yn gyfrifol am osod mesurau arbed ynni yn eu hadeiladau, ond yn derbyn nad oedd yn briodol i gael gwared ar y cymorth grant ar gyfer y cynllun ar y pryd oherwydd nad oes ffyrdd eraill o dderbyn cymorth. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn teimlo nad oedd y Benthyciadau Gwella Cartrefi yn rhoi dewis arall digonol ohonynt eu hunain oherwydd y diffyg cymhelliad i sicrhau bod landlordiaid yn gweithredu yn y maes hwn. Y polisi a fabwysiadwyd yn 2016 oedd sicrhau bod cartrefi yn gymwys yn y SRhP ar yr amod bod landlordiaid wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru.”¹²⁹

123. Esboniodd y Gweinidog fod “cartrefi yn y SRhP yn parhau i fod y cartrefi hynaf a lleiaf effeithlon o ran gwres yng Nghymru”. Felly roedd “dadl gref i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi y gwelliannau arbed ynni yn y SRhP drwy'r Rhaglen Cartrefi Cynnes”. Dywedodd y byddai cefnogaeth i'r Sector Rhentu Preifat yn cael ei hystyried “wrth i gynigion gael eu gwneud ynghylch sut y gellid gwella y Rhaglen Cartrefi Cynnes ymhellach yn y dyfodol”.¹³⁰

¹²⁷ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

¹²⁸ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

¹²⁹ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

¹³⁰ [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 30 Ionawr 2020](#)

124. Esboniodd y Gweinidog fod Rheoliadau Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni yn cael eu gorfodi gan awdurdodau lleol, sydd ag ystod o bwerau i wirio a sicrhau cydymffuriad. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru yn ariannu Rhentu Doeth Cymru i nodi eiddo ar rent sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni sy'n is na Band E. Mae cyfanswm o 8,086 eiddo wedi'u nodi fel rhai sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o F neu G ac "ni fydd modd eu gosod o dan y trefniadau newydd". Dywedodd fod Rhentu Doeth Cymru yn cysylltu â landlordiaid nad ydynt yn cydymffurfio i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau ac yn cynnig cymorth ar sut i gyflawni a chynnal a chadw cartrefi ynni effeithlon. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth drwy Nyth, neu gynlluniau eraill, fel y Cynllun ECO. Dywedodd y Gweinidog y "caiff landlordiaid sy'n gwrthod cydymffurfio â'r safonau eu cyfeirio at awdurdodau lleol a fydd o bosibl yn cymryd camau gorfodi".¹³¹

125. Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar newidiadau i Ran L (Arbed Tanwydd ac Ynni) a Rhan 6 o'r Rheoliadau Adeiladu ('Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu'). Mae'r Rheoliadau hyn, ymhlith pethau eraill, yn gosod safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol ar gyfer cartrefi newydd. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'n cynnig cyflwyno "safonau newydd llym ar gartrefi newydd, a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn raddol dros y 5 mlynedd nesaf".¹³²

Ein barn ni

Mae gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni tai cymdeithasol drwy Safon Ansawdd Tai Cymru heb os, wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn tlodi tanwydd ar draws y sector. Er ein bod yn croesawu hyn, mae 20,000 o aelwydydd yn y sector yn dal i fod yn dlawd o ran tanwydd. Mae hyn yn pwysleisio nad yw gwella effeithlonrwydd ynni yn unig yn ddigon i ddileu tlodi tanwydd mewn cartrefi. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, mae angen dull cyfannol, sy'n mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni, incwm cartrefi a phrisiau ynni.

Mae tlodi tanwydd yn parhau i fod yn broblem sylweddol yn y sector rhentu preifat. Ailadroddwn y casgliad yn ein hadroddiad, *Tai Carbon Isel: yr Her* - y dylid cael amcan hirdymor i ddod â safonau yn y Sector Rhentu Preifat yn unol â'r rhai sy'n gymwys i dai cymdeithasol. Bydd hyn nid yn unig yn cyfrannu at ddatgarboneiddio stoc dai Cymru, ond bydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y Sector Rhentu Preifat. Er y gall yr Isafswm Safonau

¹³¹ Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 3 Mawrth 2020

¹³² https://llyw.cymru/gwres-ac-ynni-o-ffynonellau-ynni-glan-i-bob-cartref-newydd-yng-nghymru-o-2025-ymlaen?_ga=2.258639055.45432906.1584350852-2117445898.1582282704

Effeithlonwydd Ynni fynd gam o'r ffordd tuag at wella effeithlonwydd ynni yn y sector, ym Mand E y Dystysgrif Perfformiad Ynni, mae'r safon yn dal yn is na'r hyn sy'n ofynnol gan SATC.

Bydd llwyddiant yr Isafswm Safonau Effeithlonwydd Ynni yn dibynnu ar allu landlordiaid i dalu cost gwella effeithlonwydd ynni, a gorfodi safonau yn effeithiol.

Mae'r Sector Rhentu Preifat yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i ateb y galw am dai yng Nghymru, ac fe'i defnyddir yn gynyddol i gartrefu rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. O ystyried hyn, mae rôl i'r llywodraeth o ran helpu i sicrhau bod mecanweithiau cymorth ariannol priodol ar waith i alluogi landlordiaid i wella effeithlonwydd ynni yn eu heiddo i fodloni neu ragori ar yr Isafswm Safonau Effeithlonwydd Ynni.

Rhaid cymryd camau gorfodi yn erbyn y landlordiaid hynny sy'n amharod i gyrraedd y safonau newydd. Ond, mae gorfodaeth gadarn yn gofyn am lefelau priodol o gapasiti ac adnoddau. O ystyried y cyfyngiadau ariannol ar awdurdodau lleol yr adroddwyd arnynt yn y dystiolaeth, nid ydym yn argyhoeddedig y byddant yn gallu cyflawni hyn.

Yn ein hadroddiad, *Tai Carbon Isel: yr Her*, fe wnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio Rhan L y Rheoliadau Adeiladu i gynyddu safonau effeithlonwydd ynni mewn cartrefi newydd. O'r herwydd, rydym yn croesawu'r ymgynghoriad diweddar ar newidiadau i Ran L. Rhaid bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn heb unrhyw oedi pellach.

Argymhelliad 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i ddatblygu mecanwaith cymorth ariannol i alluogi landlordiaid preifat i wella effeithlonwydd ynni eu heiddo. Rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth, o ystyried cyflwyno'r Isafswm Safonau Effeithlonwydd Ynni newydd o fis Ebrill 2020.

Argymhelliad 20. Rhaid i Lywodraeth Cymru, ar y cyd ag awdurdodau lleol a Rhentu Doeth Cymru, wneud gwaith i nodi'r rhwystrau i orfodi'r Isafswm Safonau Effeithlonwydd Ynni a mynd i'r afael â hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y gwaith hwn ar y cyfle cyntaf.

Argymhelliad 21. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod safonau effeithlonwydd ynni newydd mewn cartrefi newydd mor uchelgeisiol â phosibl, a bwrw ymlaen â'r newidiadau i Reoliadau Adeiladu Rhan L heb ragor o oedi.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
8 Ionawr 2020	<p>Hélène Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</p> <p>Professor Sally Holland Comisiynydd Plant Cymru</p> <p>Adam Smiley, Scope</p> <p>Dr Steffan Evans, Sefydliad Bevan</p> <p>Lindsay Murray, Cymru Gynnes</p> <p>Adam Scorer, National Energy Action</p>
22 Ionawr 2020	<p>Shaun Couzens, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p> <p>Gaynor Toft, Cyngor Sir Ceredigion</p> <p>Amy Hawkins, Dinas a Sir Abertawe</p> <p>Patrick Holcroft, Dinas a Sir Abertawe</p> <p>Matthew Kennedy, Sefydliad Tai Siartredig Cymru</p> <p>Bethan Proctor, Cartrefi Cymunedol Cymru</p> <p>Tim Thomas, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl</p>
30 Ionawr 2020	<p>Daniel Alchin, Energy UK</p> <p>Jenny Boyce, E.ON</p> <p>Crispin Jones, Arbed am Byth</p> <p>Rajni Nair, Cyngor ar Bopeth</p>

	<p>David Weatherall, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni</p>
<p>13 Chwefror 2020</p>	<p>Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig</p> <p>Julie James, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol</p> <p>Christine Wheeler, Pennaeth Datgarboneiddio ac Ynni- Llywodraeth Cymru</p> <p>Stephen Chamberlain, Tîm Effeithlonwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd – Llywodraeth Cymru</p> <p>Lisa Dobbins, Pennaeth Datgarboneiddio Tai, Llywodraeth Cymru</p>

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
FP01	Dr Thornton
FP02	Unigolyn
FP03	Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
FP04	Dinas a Sir Abertawe
FP05	Tîm Prosiect Gwyddorau Cymdeithasol FLEXIS, Prifysgol Caerdydd*
FP06	Ynni Clyfar GB*
FP07	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru*
FP08	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
FP09	Cyngor Sir Ceredigion
FP10	Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai
FP11	Cymru Gynnes
FP12	Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn*
FP13	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
FP14	E.ON
FP15	Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd
FP16	Policy Connect
FP17	Sefydliad Bevan
FP18	Sefydliad Dosbarthu Tanwydd y DU ac Iwerddon (UKIFDA)
FP19	Cyngor Gwynedd*
FP20	Comisiynydd Plant Cymru
FP21	Sefydliad Tai Siartredig Cymru
FP22	Calor
FP23	Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
FP24	Iechyd Cyhoeddus Cymru

FP25	Energy UK
FP26	Scope
FP27	Gweithredu Ynni Cenedlaethol (NEA) Cymru
FP28	Cartrefi Cymunedol Cymru
FP29	Cyngor ar Bopeth
FP30	Panel Arbenigol o Benaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru ar gyfer Tai yn y Sector Preifat
FP31	Christina Nascimento, Ymchwilydd Academaidd
FP32	Gofal a Thrwsio Cymru
FP33	Age Cymru
FP34	Canolfan Adeiladu Gweithredol
FP35	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru